

# Nofio Am Ddim

## Gwerthusiad o Fenter Llywodraeth Cynulliad Cymru

Nicola Bolton, Steve Martin, Melissa Anderson,  
Bev Smith a Chris Jennings



sports council wales  
cyngor chwaraeon cymru

Noddir gan  
Lywodraeth Cynulliad Cymru  
Sponsored by  
Welsh Assembly Government



Nicola Bolton, Melissa Anderson, Bev Smith a  
Chris Jennings: Ysgol Chwaraeon Caerdydd, APCC  
Steve Martin, Ymgynghorydd Allanol

Rheolwyd a chefnogwyd y gwaith o werthuso'r Fenter Nofio Am Ddim gan Gyngor  
Chwaraeon Cymru ar ran Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Mae cynnwys yr adroddiad yn adlewyrchu barn y tîm gwerthuso, nid Cyngor  
Chwaraeon Cymru.

Pris: £3.00, Chwefror 2008

ISBN: 1-871553-05-09

Yr Adran Ymchwil a Gwerthuso, Cyngor Chwaraeon Cymru  
Gerddi Sophia, Caerdydd CF11 9SW

Ffôn: 0845 046 0023 Ffacs: 0845 846 0014

e-bost: [research@scw.org.uk](mailto:research@scw.org.uk) [www.cyngor-chwaraeon-cymru.org.uk](http://www.cyngor-chwaraeon-cymru.org.uk)

© Cyngor Chwaraeon Cymru 2008

# Cynnwys

<b>Crynodeb Gweithredol</b>	<b>4</b>	<b>Rhestr o Ffigyrau</b>	
<b>Pennod 1 Cyflwyniad</b>	7	Ffigwr 1. Lleoliad y Pyllau'n Cymryd Rhan yng Nghymru	8
Cefndir y Fenter Nofio Am Ddim	7	Ffigwr 2. Oedran y Plant yn Cymryd Rhan yn Nofio Am Ddim	13
Y Cyd-Destun Ehangach	9	Ffigwr 3. Cyfranogiad y Rhai 60+ yn Nofio Am Ddim – Sesiynau Nofio Di-Strwythur a Strwythuredig	19
Y Rhaglen Werthuso	9		
Sgôp yr Adroddiad Hwn	10		
<b>Pennod 2 Effeithiau Nofio Am Ddim</b>	11	<b>Rhestr o Dablau</b>	
Cyfranogiad Cynyddol: y Grŵp 16 Oed ac Iau	11	Tabl 1. Cyfanswm y Cyllid Blynyddol ar gyfer y MNADD	9
Cyfranogiad Cynyddol: y Grŵp 60+ Oed	18	Tabl 2. Cyfanswm y Sesiynau Nofio Am Ddim fesul Cyfnod Gwyliau a Blwyddyn	12
<b>Pennod 3 Cyfyngiadau Nofio Am Ddim</b>	22	Tabl 3. Cyfran y Plant yn Ymwneud â Gwahanol Fathau o Nofio	14
Cyflwyniad	22	Tabl 4. Argaeledd Nofio Am Ddim yn 2006 i'r rhai 60+	18
Rhesymau Dros Beidio â Chymryd Rhan	22	Tabl 5. Y Gweithgareddau a Gynigiwyd fel Rhan o'r Cynllun 60+	19
Marchnata a Hyrwyddo	25	Tabl 6. Diffyg Cyfranogiad yn Nofio Am Ddim gan Blant 7-11 Oed	22
Gwerth Am Arian	26	Tabl 7. Y Rhesymau a Nodwyd gan Oedolion 60+ a Fyngodd Ddiddordeb mewn Nofio neu Nofio'n Amlach	23
<b>Pennod 4 Rheoli Nofio Am Ddim</b>	27		
Cyflwyniad	27		
Gweithredu Cenedlaethol	27		
Gweithredu Lleol	29		
<b>Pennod 5 Crynodeb a Goblygiadau ar gyfer Polisiau'r Dyfodol</b>	32		
Darganfyddiadau Allweddol	32		
Goblygiadau ar gyfer Polisiau'r Dyfodol	33		
Cyfeiriadau	36		
Adroddiadau Gwerthuso Interim	36		
Grŵp Llywio'r Gwerthusiad	37		
Tîm y Gwerthusiad	37		
Rhestr o'r Sefydliadau'n Cymryd Rhan	38		
Cyfranwyr Unigol	39		

# Crynodeb Gweithredol

Mae Nofio Am Ddim yng Nghymru yn fenter gan Lywodraeth Cynulliad Cymru sy'n cynnwys dau gynllun ar wahân ond cysylltiedig. Ers haf 2003, cynigiwyd hawl i ieuencid 16 oed ac iau nofio am ddim yn ystod gwyliau'r ysgol, fel rhan o gynllun peilot. Mae ail gynllun peilot wedi bod yn weithredol ers mis Tachwedd 2004, yn cynnig nofio am ddim i'r grŵp oedran 60+ y tu allan i wyliau ysgol.

Mae'r Fenter Nofio Am Ddim (MNADd) yng Nghymru wedi cael ei gwerthuso ers Tachwedd 2004. Arweiniwyd y gwerthusiad gan dîm o ymchwilwyr o Ysgol Chwaraeon Caerdydd, APCC, a'i oruchwylio gan Grŵp Llywio Gwerthusiad Nofio Am Ddim, dan gadeiryddiaeth Cyngor Chwaraeon Cymru. Yn ychwanegol at yr adroddiad terfynol hwn, mae'r tîm gwerthuso wedi llunio pump adroddiad interim ac adroddiad cryno.

## Darganfyddiadau Allweddol

### Effeithiolrwydd y Broses Beilot

- Mae'r broses beilot wedi profi'n effeithiol. Mae wedi bod yn brawf da o effaith darparu nofio am ddim ac mae wedi tynnu sylw at nifer o wersi pwysig am reoli nofio am ddim ar lefel genedlaethol a lleol.

### Cyfranogiad

- Mae darparu nofio am ddim wedi cynyddu cyfranogiad ymhlith y grwpiau 16 oed ac iau a 60+.
- Mae mwy na hanner y plant yng Nghymru sydd rhwng 10 a 14 oed wedi cymryd rhan mewn sesiynau nofio am ddim ac maent wedi bod yn arbennig o boblogaidd ymhlith ieuencid 11-13 oed.
- Mae'r cynllun 60+ wedi arwain at gynnydd yn nifer y sesiynau nofio, yn bennaf drwy annog y nofwyr presennol i nofio'n amlach.
- Gwelwyd y cyfranogiad yn y cynllun 16 oed ac iau ar ei uchaf yn 2004-05.
- Mae mwyafrif helaeth y sesiynau nofio am ddim a ddarparwyd ar gyfer y grwpiau 16 oed ac iau a 60+ yn parhau'n ddi-strwythur, ond gwelwyd cynnydd yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf yn nifer y sesiynau nofio strwythuredig.
- Mae'r cynnydd yn nifer y plant 16 oed ac iau sydd wedi cymryd rhan mewn sesiynau nofio

strwythuredig, i fyny o 24,000 yn 2004-05 i 71,000 yn 2006-07, yn arwyddocaol.

- Os cynigiwyd sesiynau strwythuredig, maent wedi arwain yn aml at gyswllt â chlybiau nofio sy'n bodoli eisoes ac, mewn rhai achosion, ffurfio clybiau newydd.
- Mae nofio am ddim wedi cael effaith bositif ar gyfranogiad ymhlith 'grwpiau anodd eu cyrraedd', yn enwedig y rhai'n byw mewn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf.
- Mae'r cyfranogiad gan bobl ag anableddau wedi bod yn gymysg ac wedi amrywio'n sylweddol o awdurdod i awdurdod. Ac ni cheir llawer o dystiolaeth bod yr awdurdodau wedi mynd ati i weithio'n benodol gyda phobl ag anableddau yn y grŵp oedran 60+.

### Hawl i Nofio am Ddim a Rhwystrau'n Atal Cyfranogiad

- Roedd darparu nofio am ddim yn ffactor bwysig wrth annog mwy o bobl ieuainc i nofio a'r cyfranogwyr 60+ oed i nofio'n amlach.
- I'r rhan fwyaf o bobl, nid cost oedd yr unig rwystr na'r rwystr pwysicaf yn aml o ran cymryd rhan. Roedd ffactorau eraill, fel lleoliad y pwll, amseroedd y sesiynau nofio am ddim, yr awydd am osgoi pyllau swllyd a phrysur a diffyg hoffter o nofio i gyd yn arwyddocaol wrth atal cyfranogiad.
- Felly, nid yw darparu sesiynau am ddim yn ddigon ar ei ben ei hun i sicrhau cyfranogiad gan fwyafrif y boblogaeth gymwys.

### Grwpiau Targed

- Mae'r fenter wedi cynyddu cyfranogiad ymhlith y ddau grŵp oedran targed.
- Mae'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol yn cynnig sesiynau nofio am ddim drwy gydol y flwyddyn i'r grŵp oedran 60+ yn awr. Ond nid yw nofio am ddim ar gael yn gyffredinol i blant y tu allan i gyfnodau gwyliau'r ysgol.

### Marchnata a Hyrwyddo

- Mae'r gwaith o farchnata a hyrwyddo'r MNADd wedi bod yn amrywiol, gydag effaith genedlaethol gyfyngedig. Mae'r rhan fwyaf o'r rhai sydd wedi cymryd rhan yn y sesiynau nofio am ddim wedi dweud eu bod wedi clywed amdanynt drwy dafod



lleferydd neu drwy gyfrwng gwaith marchnata lleol gan awdurdodau lleol.

### Materion Rheoli

- Cynlluniwyd y MNADd gan Lywodraeth y Cynulliad a'i gweithredu gan y 22 awdurdod lleol yng Nghymru. Roedd y cyfarwyddyd polisi a gyhoeddwyd gan Lywodraeth y Cynulliad i fod yn hyblyg ac fe arweiniodd hyn at amrywiaethau sylweddol ledled Cymru yn y ffordd yr oedd y fenter yn cael ei gweithredu. Mae'r rhan fwyaf o'r awdurdodau lleol wedi ymroi i'r fenter. Mae rhai wedi brwydro i fodloni'r ddarpariaeth leiafswm sy'n ofynnol, ond mae eraill wedi rhagori arni.
- Gwelwyd gwelliannau yn ystod y cyfnod peilot wrth reoli nofio am ddim – ar lefel genedlaethol a lleol. Mae'r rhain wedi cynnwys: amcanion a nodau cliriach; gwell dulliau o gasglu data yn lleol; pwyslais cynyddol ar weithgarwch strwythuredig a thargeddu grwpiau penodol; a gwell cyfathrebu rhwng swyddogion oddi mewn i awdurdodau lleol.
- Mae gwersi pwysig i'w dysgu oddi wrth y gwelliannau hyn – ar gyfer unrhyw estyniad ar nofio am ddim ac er mwyn rheoli a chyflwyno mentrau peilot cenedlaethol eraill.

### Dringo'n Uwch

- Wedi cyhoeddi strategaeth Dringo'n Uwch, mae'n rhaid i nofio am ddim gael ei ystyried yn awr fel rhan o bortffolio ehangach o weithgareddau er mwyn cyflwyno ar dargedau gweithgarwch corfforol newydd ac mae'n rhaid ei integreiddio'n well gyda pholisïau eraill Llywodraeth y Cynulliad, yn ogystal â bod yn sensitif i ardaloedd arbennig.

## Goblygiadau ar gyfer Polisiau yn y Dyfodol

Mae tystiolaeth y gwerthusiad yn tynnu sylw at nifer o oblygiadau a all fod yn oblygiadau pwysig ar gyfer polisiau'r dyfodol.

### Cyllid

Mae'r cyllid craidd ar gyfer nofio am ddim wedi aros yr un fath yn ystod y cyfnod peilot. Mae angen ystyried y pwysau ariannol cyfredol sy'n wynebu darparwyr awdurdodau lleol ac mae canlyniadau'r cynllun peilot yn awgrymu bod pum mater pwysig i'w hystyried.

- Mae'n rhaid adolygu cyfanswm y cyllid craidd. Mae'r swm a sefydlwyd ar gyfer y cynllun peilot wedi aros yr un fath, ond bod rhyw faint o gyllid cais wedi'i ryddhau. Mae costau gweithredu pyllau a chanolfannau hamdden wedi cynyddu felly mae'n briodol adolygu'r cyllid cyffredinol sydd ar gael i awdurdodau lleol.

- Mae'n rhaid adolygu'r sail ar gyfer neilltuo cyllid rhwng awdurdodau hefyd. Roedd y fformiwla'n ddefnyddiol ar y dechrau ond nid yw'n darparu sail gadarn ar gyfer 'ehangu' nofio am ddim y tu hwnt i'r cyfnod peilot.
- Os am roi sylfaen gadarn i nofio am ddim, mae'n rhaid darparu sicrwydd ariannol tymor canolig fel bod awdurdodau lleol yn gallu cynllunio ymlaen ac arenwi blaenoriaethau.
- Yn y dyfodol, dylid ystyried cysylltu taliadau ag awdurdodau a'u gallu i berfformio'n erbyn targedau cytunedig – o ran cyfranogiad cynyddol a safon y sesiynau a gynigir gan byllau.
- Dylid sicrhau mwy o gymhelliant i reolwyr canolfannau hamdden unigol lwyddo gyda nofio am ddim.

### Cyflwyno

Seiliwyd y gwaith o gyflwyno nofio am ddim ar gyfarwyddyd polisi a gymeradwywyd ar y cyd gan Lywodraeth y Cynulliad ac awdurdodau lleol. Tynnodd y gwerthusiad sylw at wyth mater pwysig mewn perthynas â chyflwyno.

- Sicrhau mwy o berchnogaeth ar nofio am ddim a mwy o arweiniad ar lefel genedlaethol a gwneud swyddogaethau a chyfrifoldebau Llywodraeth y Cynulliad a Chyngor Chwaraeon Cymru (CChC) yn amlycach.
- Gwella ymrwymiad a gallu lleol i weithredu nofio am ddim yn effeithiol, yn cynnwys sefydlu fframweithiau rheoli lleol cadarnach sy'n gallu cynllunio, gosod nodau, mesur ac adrodd yn ôl am ganlyniadau'n effeithiol.
- Efallai y bydd llunwyr polisiau am adolygu'r ddau grŵp targed sydd wedi bod yn ffocws y cynllun peilot.
- Ystyried ehangu'r hawl i bobl ieuainc y tu allan i wyliau ysgol er mwyn annog gweithgarwch corfforol drwy gydol y flwyddyn.
- Caniatáu i awdurdodau lleol gael mwy o ryddid i addasu nofio am ddim i ddiwallu anghenion a blaenoriaethau lleol. Bydd raid wrth strategaethau mwy proactif ar gyfer hyn, er mwyn sicrhau bod y grwpiau 'anodd eu cyrraedd' yn gallu elwa o nofio am ddim.
- Ystyried cynyddu amrywiaeth y gweithgareddau sydd ar gael am ddim, er mwyn cynyddu gweithgarwch corfforol ymhlith y rhai nad oes ganddynt ddiddordeb mewn nofio. Roedd rhai mentrau lleol llwyddiannus yn cynnwys cyflwyno rhaglenni newydd yn cyfuno nofio gyda gweithgareddau eraill a / neu ffocws ar faterion ffordd o fyw ac addysgol ehangach, fel bwyta'n iach.
- Sicrhau bod datblygiadau newydd yn cyd-fynd â'r mentrau presennol. Mae sawl menter yn cael ei

datblygu ar hyn o bryd gan awdurdodau lleol ar ran Llywodraeth y Cynulliad a CChC. Mae'n bwysig bod nofio am ddim yn rhan integredig ohonynt ac o strategaeth gyffredinol Dringo'n Uwch.

- Mae cyfranogiad cynladwy'n galw am bwyslais ar ddatblygu gwell cysylltiadau clwb a chreu partneriaethau ehangach. Mae'n rhaid cynllunio a datblygu'r cyswllt rhwng nofio am ddim, clybiau nofio a sefydliadau chwaraeon a sefydliadau eraill cymunedol.

## Strategaeth

Mae'n rhaid sicrhau nodau cliriach a gwell integreiddio gyda pholisiau a rhaglenni sy'n ceisio cynyddu gweithgarwch corfforol. Mae hyn yn golygu unioni nofio am ddim gyda strategaethau perthnasol Llywodraeth y Cynulliad, yn arbennig Dringo'n Uwch, sy'n strategaeth gonglfaen ar gyfer chwaraeon a hamdden egniol yng Nghymru yn ystod yr 20 mlynedd nesaf.

Yn hytrach na gweithredu ar ei ben ei hun, mae'r gwerthusiad o'r MNADD wedi dangos y dylai gael ei ystyried fel rhan o bortffolio o fentrau sy'n ceisio cynyddu gweithgarwch corfforol. Bydd raid i awdurdodau lleol baratoi strategaeth chwaraeon a gweithgarwch corfforol leol sy'n cynnwys ond heb ganolbwyntio'n unig ar nofio a gweithgareddau dŵr eraill. I rai awdurdodau, fe all hyn arwain at ffocws parhaus ac ehangach o bosibl, ond efallai y bydd eraill am roi pwyslais ar weithgareddau sych.

Bydd yn bwysig creu cyswllt cryfach rhwng nofio am ddim a rhwydweithiau eraill o weithgareddau a sefydliadau cymunedol. Mae hyn yn awgrymu bod angen cynyddu nifer ac amrywiaeth y gweithgareddau sydd ar gael (yn cynnwys gweithgareddau dŵr eraill a hefyd chwaraeon sych), i dargedu'r clientau'n fwy penodol ac i greu partneriaethau cynladwy.

# Pennod Un - Cyflwyniad

## Cefndir y Fenter Nofio Am Ddim

Yn dilyn etholiadau 2002, fe ymrodd Llywodraeth y Cynulliad i ddarparu "defnydd rhad ac am ddim o byllau nofio awdurdodau lleol i blant yn ystod gwyliau'r ysgol ac i bobl hŷn yn ystod y tymor" (Llywodraeth Cynulliad Cymru [LICC] 2003). Lansiodd cynllun peilot yn cynnwys deg awdurdod lleol yn ystod gwyliau Pasg 2003 (er bod Torfaen eisoes yn gweithredu cynllun cyfyngedig gyda'r hawl i nofio am ddim yn gysylltiedig â cherdyn llyfrgell). Ehangwyd y cynllun wedyn a gweithredodd y 22 awdurdod lleol nofio am ddim ar gyfer plant yn ystod gwyliau haf 2003. Daeth adroddiad ar y cynllun haf, a baratowyd gan Gyngor Chwaraeon Cymru [CChC] ac Uned Data Llywodraeth Leol Cymru, i'r casgliad ei fod wedi bod yn llwyddiant (CChC 2004a). Fis Tachwedd 2004, cyflwynodd Llywodraeth y Cynulliad ail gynllun nofio am ddim ar gyfer pobl hŷn, pobl 60 oed a throsodd, 'nofio am ddim 60+'. Gyda'i gilydd daeth y ddau gynllun yma i gael eu hadnabod fel y Fenter Nofio Am Ddim (MNADD). Gweithredwyd y ddwy elfen fel cynllun peilot cenedlaethol tan 2007 ac maent wedi cael eu cyflwyno drwy gyfrwng partneriaeth rhwng Llywodraeth y Cynulliad (sydd wedi darparu'r cyllid a phennu'r fframwaith cyffredinol drwy gyfrwng nodiadau cyfarwyddyd polisi blynyddol) ac awdurdodau lleol (sydd wedi datblygu cynlluniau lleol ar gyfer gweithredu'r fenter yn eu hardaloedd).

## Darpariaeth Leiafswm

Roedd y nodiadau cyfarwyddyd polisi a sefydlwyd gan Lywodraeth y Cynulliad gan ymgynghori ag awdurdodau lleol yn datgan y ddarpariaeth leiafswm ar gyfer y ddau gynllun ac maent yn ddarostyngedig i gael eu cymeradwyo'n flynyddol. Er eu bod wedi parhau'n gymharol gyson dros gyfnod o amser, gwelwyd rhai addasiadau. Er enghraifft, gwelwyd ffocws diweddar ar ddarparu ar gyfer siaradwyr Cymraeg, pwyslais cynyddol ar weithgareddau strwythuredig a symud oddi wrth gyflwyno galas lleol a mynychu gala cenedlaethol (y cyfeirir ato mewn rhan arall o'r adroddiad hwn fel yr Ŵyl Ddŵr Genedlaethol).

Y ddarpariaeth leiafswm gyfredol a ddisgwylir gan awdurdodau lleol ar gyfer y cynllun 16 oed ac iau yn ystod pob gwyliau o'r ysgol yw:

- Darperir nofio am ddim (gweithgareddau trochi a / neu strwythur rhydd) am leiafswm o 50% o'r holl sesiynau nofio i'r cyhoedd yn ardal yr awdurdod
- Ymrwymir lleiafswm o awr y dydd ym mhob awdurdod lleol i raglen weithgarwch strwythuredig am ddim ar gyfer y grwpiau targed (e.e. grwpiau duon a lleiafrifoedd ethnig, gwersi nofio drwy gyfrwng y Gymraeg, sesiynau ar gyfer plant difreintiedig, cyflwyniad i weithgareddau dŵr eraill). Wedi gwerthusiad y cwsmeriaid o'r MNADD, mae'r holl garfannau cysylltiedig â'r fenter yn **dymuno annog mwy o gyfranogiad mewn gweithgarwch strwythuredig** (pwyslais ar y gwreiddiol)
- Dylai o leiaf un o'r sesiynau uchod fod yn sesiwn strwythuredig penodol ar gyfer plant ag anabledd. Anogir yr awdurdodau i ddarparu cefnogaeth a chymhelliant i ofalwyr a phlant gydag anabledd.

Y ddarpariaeth leiafswm gyfredol a ddisgwylir gan awdurdodau lleol ar gyfer y cynllun 60+ yw:

- **Fel lleiafswm**, nofio am ddim ar gyfer oedolion 60 oed a hŷn yn ystod yr holl sesiynau nofio i'r cyhoedd **y tu allan i wyliau'r ysgol** (pwyslais ar y gwreiddiol). Anogir awdurdodau lleol i ehangu'r ddarpariaeth i gynnwys yr holl sesiynau i'r cyhoedd drwy gydol y flwyddyn os yw hyn yn bosibl
- Ymrwymir lleiafswm o awr y dydd ym mhob awdurdod lleol a lleiafswm o awr yr wythnos ym mhob pŵll i sesiwn gweithgarwch strwythuredig am ddim, fel gwersi nofio, aerobics dŵr / chi dŵr. Dylid targedu'r gweithgareddau hyn yn lleol a sicrhau darpariaeth gynhwysol, er enghraifft, ar gyfer pobl ag anabledd, grwpiau duon a lleiafrifoedd ethnig, siaradwyr Cymraeg ac unigolion a grwpiau eraill, yn unol ag amgylchiadau, anghenion a blaenoriaethau lleol
- Anogir awdurdodau i ddarparu cefnogaeth a chymhelliant i ofalwyr pobl hŷn a'r rhai sy'n hwyluso defnydd o'r rhaglen nofio am ddim leol
- Bydd gweithio gyda'r cyhoedd yn gyffredinol yn rôl allweddol i awdurdodau lleol a'r Cydlynwyr Nofio Am Ddim penodol, yn enwedig gyda'r unigolion a'r cymunedau sydd fwyaf anodd eu cyrraedd a chydaf angen mwyaf.


## Pyllau'n Cymryd Rhan

Mae nifer y pyllau sy'n cymryd rhan yn y MNADDd wedi newid dros amser oherwydd bod pyllau wedi cau (tri'n barhaol a saith dros dro), dau bwll newydd wedi agor, tri phwll wedi cael eu hadnewyddu'n llwyr ac un pwll awyr agored sydd ond yn gweithredu yn ystod gwyliau'r haf. Ond mae rhyw 120 o byllau wedi bod yn rhan o'r fenter drwy gydol yr amser (gweler Ffigwr 1). Mae'r mwyafrif yn eiddo i ac yn cael eu rheoli'n uniongyrchol gan yr awdurdodau lleol eu hunain, ond ceir amrywiaeth yn y trefniadau, gan ddibynnu ar pa un ai yw'r pwll yn gyfleuster ar ei ben ei hun, yn rhan o ganolfan / campws hamdden, neu ynghlwm wrth ysgol / safle addysgol. Yr

ardaloedd ble mae gan y pyllau drefniadau rheoli sydd y tu allan i reolaeth yr awdurdod lleol yw:

- Ceredigion – lle mae pum pwll yn cael eu rheoli'n annibynnol ar yr awdurdod lleol a'i gilydd
- Castell-nedd Port Talbot – lle mae'r pyllau'n cael eu rheoli gan ymddiriedolaeth
- Dinbych – lle mae dau bwll yn cael eu rheoli gan Clwyd Leisure, sydd wedi ymwneud ar adegau amrywiol â'r MNADDd.

**Ffigwr 1: Lleoliad y Pyllau'n Cymryd Rhan yng Nghymru**





## Cyllid

Amlinellir cyfanswm y cyllid ar gyfer y MNADD gan Lywodraeth y Cynulliad yn Nhabl 1. Roedd y cyllid craidd ar gyfer y cynllun 16 oed ac iau yn £2.4 miliwn y flwyddyn ac ar gyfer y cynllun 60+ roedd y swm yn £1 miliwn y flwyddyn. Roedd cyllid ychwanegol y gallai'r awdurdodau lleol wneud cais amdano. Yn 2004-05, roedd £856k ychwanegol ar gael ac, yn 2006-07, £1.5 miliwn ychwanegol. Defnyddiwyd £100,000 gan Lywodraeth y Cynulliad i gefnogi gwaith marchnata, cyhoeddusrwydd a gwerthuso.

Mae'r cyllid felly'n cynnwys cyfuniad o gyllid craidd a chyllid ychwanegol. Neilltuir y cyllid craidd ar gyfer y cynllun 16 oed ac iau yn unol â fformiwla'n seiliedig ar faint y boblogaeth a lefel y cyni. Mae'r fformiwla ar gyfer y cynllun 60+ yn ystyried maint y boblogaeth, cyni a chyfran yr henoed yn byw ar eu pen eu hunain. Yn 2006, daeth y cyllid ar gyfer y cynllun 16 oed ac iau a'r cynllun 60+ at ei gilydd fel un grant i ddarparu gwell hyblygrwydd i awdurdodau lleol. Ond mae maint y gyllideb graidd wedi aros yr un fath ers dechrau'r cynllun peilot. Mae cyllid ychwanegol wedi bod ar gael i awdurdodau lleol drwy gyfrwng proses ymgeisio.

**Tabl 1: Cyfanswm y Cyllid Blynyddol ar gyfer y MNADD**

Cyllid Blynyddol	Swm £m
2003-04	2.5
2004-05	3.9
2005-06	3.5
2006-07	5.1
Cyfanswm	15

Ffynhonnell: Llywodraeth Cynulliad Cymru

## Y Cyd-Destun Ehangach

Mae gan chwaraeon a gweithgarwch corfforol ran bwysig i'w chwarae wrth gyfrannu at yr agenda cymdeithasol ehangach (Coalter 2001) yn cynnwys, yn arbennig, gwella iechyd. Ceir cofnod helaeth o'r manteision iechyd cysylltiedig â ffordd o fyw egniol ac maent wedi'u pwysleisio mewn amrywiaeth o ddatganiadau polisi, yn cynnwys, yn arbennig, adroddiad Prif Swyddog Meddygol Lloegr yn 1998 ac, yn fwy diweddar, adroddiad Syr Derek Wanless. Derbynnir yn eang bod gweithgarwch corfforol rheolaidd yn gallu lleihau'r risg o farw'n ifanc ymhlith oedolion, ac atal achosion o afiechydon cronig a rhai mathau o gancr. I blant a phobl ieuainc, gall ymarfer yn rheolaidd wella datblygiad a lleihau'r tebygolrwydd o fod dros bwysau ac yn or-dew.

Ond mae data'n dangos mai ychydig o bobl sy'n cymryd rhan mewn digon o weithgarwch i hynny wneud gwahaniaeth i'w hiechyd. Mae hyn wedi arwain at bwyslais o'r newydd gan y Llywodraeth a sefydliadau perthnasol eraill ar fanteision ymarfer ac amrywiaeth

o raglenni ac ymyriadau newydd i'w hannog. Yng Nghymru, sefydlodd lansiad Dringo'n Uwch a Dringo'n Uwch – Y Camau Nesaf (LICC 2005, 2006) dargedau pellgyrhaeddol ac uchelgeisiol amrywiol ar gyfer datblygu chwaraeon a hamdden egniol yng Nghymru. Ceir 16 targed penodol yn cyfrannu at ddau nod cyffredinol, sef;

- Cynyddu gweithgarwch corfforol ymhlith plant (60 munud o weithgarwch corfforol bum gwaith yr wythnos); a
- Cynyddu gweithgarwch corfforol ymhlith oedolion (30 munud o weithgarwch corfforol cymedrol ddwys bum gwaith yr wythnos).

Yn 2006, lansiodd CChC ei ddogfen bolisi (CChC, 2005b) fel ymateb i'r agenda hwn. Roedd yn datgan yn eglur ei gefnogaeth i Dringo'n Uwch ac yn cydnabod yr angen am newid tuag at annog grwpiau newydd o glientau a gweithgareddau, ond nid ar draul y ffocws ar chwaraeon traddodiadol.

## Y Rhaglen Werthuso

Wedi gwerthusiad gwreiddiol o weithredu rhaglenni Pasg 2003 a haf 2004 (CChC 2004a), fis Tachwedd 2004, gwahoddwyd tîm o ymchwilyr o Ysgol Chwaraeon Caerdydd, APCC, i gynnal gwerthusiad annibynnol, hirdymor o'r MNADD hyd at 2007. Roedd dau brif nod yn perthyn i'r gwerthusiad hwn:

- Asesu'r gwaith o reoli a gweithredu'r MNADD er mwyn helpu i arwain llunwyr polisiau wrth iddynt berffeithio'r fenter wrth iddi ddatblygu; ac
- Asesu i ba raddau yr oedd y fenter wedi arwain at gyfranogiad cynyddol mewn nofio ymhlith y ddau grŵp targed.

Roedd gwerthuso'r manteision iechyd cysylltiedig â'r MNADD y tu allan i gylch gorchwyl yr astudiaeth.

Goruchwyliwyd y gwerthusiad gan Grŵp Llywio'r Gwerthusiad dan gadeiryddiaeth y Rheolwr Ymchwil a Gwerthuso yn CChC, a oedd yn cynnwys cynrychiolwyr o Lywodraeth y Cynulliad, Uned Data Llywodraeth Leol a CChC.

Yn unol â'r nod o helpu i ffurfio sylfaen ar gyfer gweithredu'r fenter yn barhaus, mae'r tîm ymchwil wedi llunio adroddiadau interim rheolaidd sydd wedi ystyried amrywiaeth o faterion rheoli a gweithredu, yn cynnwys:

- Adroddiad interim cyntaf, Ionawr 2005 – yn gwerthuso'r rheolaeth ar nofio am ddim a'r cyfranogiad yn y fenter ymhlith y rhai yn y grŵp 16 oed ac iau yn ystod hanner tymor mis Hydref 2004 ac asesu'r rheolaeth gyffredinol ar y fenter hyd yma yn seiliedig ar gyfres o gyfweiliadau lled-strwythuredig gyda chyfranwyr allweddol, yn cynrychioli'r sefydliadau a ganlyn: Llywodraeth y Cynulliad; CChC; Cymdeithas Nofio Amatur Cymru

(CNAC); Ffederasiwn Chwaraeon Anabledd Cymru (FfChAC); Prif Swyddogion Hamdden (PSH); ac Awdurdodau Lleol.

- Ail adroddiad interim, Hydref 2005 – yn adrodd am ddarganfyddiadau arolygon yn seiliedig ar y ddau gynllun, cyfweiliadau gyda swyddogion awdurdodau lleol, data meintiol am lefel y cyfranogiad a dadansoddiad o gynlluniau awdurdodau lleol ar gyfer gweithredu'r fenter.
- Trydydd adroddiad interim, Chwefror 2006 – yn adrodd am ddarganfyddiadau'r Wyl Ddŵr Genedlaethol, yr arolwg ar reolwyr canolfannau hamdden awdurdodau lleol a'r ffigyrau diweddaraf am gyfraddau cymryd rhan.
- Pedwerydd adroddiad interim, Mai 2007 – yn darparu Astudiaeth Achos fanwl o elfen 60+ y fenter ac yn gwerthuso'r polisi nofio am ddim ar gyfer pobl ag anableddau.
- Pumed adroddiad interim, Hydref 2007 – yn adrodd am ddarganfyddiadau'r arolwg ar reolwyr canolfannau yn 2006-07, arolwg ysgolion 2006 ar ddisgyblion blynyddoedd 8 a 10, y cyfweiliadau a gynhaliwyd gyda swyddogion awdurdodau lleol a chynlluniau cyflwyno'r awdurdodau lleol.

Casglwyd y dystiolaeth ar gyfer yr adroddiadau hyn gan y tîm gwerthuso drwy gyfrwng:

- Cydlynu, rheoli a dadansoddi data a gasglwyd gan awdurdodau lleol mewn perthynas â'r nifer yn manteisio ar nofio am ddim yn yr holl byllau'n cymryd rhan yng Nghymru.
- Dau arolwg, a gynhaliwyd yn 2005 gyda disgyblion blwyddyn 8 ac yn 2006-7 gyda disgyblion blwyddyn 8 a blwyddyn 10.
- Arolwg ar y defnyddwyr 60+ a gynhaliwyd yn 2005.
- Dau arolwg a gynhaliwyd (2005 a 2006) ar reolwyr canolfannau hamdden a phyllau awdurdodau lleol.
- Cyfweiliadau gwreiddiol gyda chyfranwyr (rhwng Rhagfyr 2004 a Ionawr 2005).
- Cyfweiliadau a gynhaliwyd gyda thrawsdoriad o swyddogion o chwe awdurdod lleol (rhwng Mai a Gorffennaf 2005).
- Cyfweiliadau a grwpiau ffocws gyda swyddogion o'r 22 awdurdod lleol (rhwng Tachwedd a Rhagfyr 2006).
- Arolwg ar y Swyddogion Chwaraeon Anabledd i gyd (rhwng Rhagfyr 2005 a Chwefror 2006) a'u cysylltiad â'r MNADd, ynghyd â phum cyfweiliad dilynol (Awst 2006).
- Ymchwil astudiaeth achos yn defnyddio cyfweiliadau a grwpiau ffocws i edrych ar faterion ym ymwneud â'r rhai nad ydynt yn defnyddio'r cynllun 60+ (rhwng Mawrth a Medi 2006).
- Dadansoddiad o'r Wyl Ddŵr Genedlaethol yn seiliedig ar arolygon ar y cyfranogwyr, holiadur i

reolwyr timau awdurdodau lleol a chyfweiliadau gyda chyfranwyr (rhwng Hydref a Rhagfyr 2005).

- Astudiaeth Achos a dadansoddi arferion gorau ledled Cymru (parhaus).
- Dadansoddiad o gynlluniau awdurdodau lleol ar gyfer 2004-05, 2005-06, 2006-07 a 2007-08.
- Ymchwilio i gynlluniau analog mewn rhannau eraill o'r DG (rhwng Gorffennaf a Medi 2006).

Hefyd mae'r gwerthusiad wedi defnyddio data eilradd, yn cynnwys data hydredol am gyfranogiad a gasglwyd bob dwy flynedd gan Gyngor Chwaraeon Cymru.

## Sgôp yr Adroddiad Hwn

Mae'r adroddiad terfynol hwn yn darparu asesiad cyffredinol o weithredu a rheoli'r MNADd a'i heffaith ar gyfranogiad. Mae gweddill yr adroddiad hwn yn cynnwys pedair pennod:

- Pennod 2 sy'n dadansoddi effeithiau nofio am ddim;
- Pennod 3 yn adrodd am gyfyngiadau'r fenter;
- Pennod 4 yn asesu ei rheolaeth – ar lefel genedlaethol a lleol;
- Pennod 5 yn cyflwyno crynodeb o'r darganfyddiadau allweddol ac yn trafod y goblygiadau ar gyfer polisiau'r dyfodol.

# Pennod Dau – Effeithiau Nofio Am Ddim

## Cyfranogiad Cynyddol: Y Grŵp 16 Oed ac Iau

### Argaeledd Nofio Am Ddim

Mae'r MNADD wedi bod yn weithredol yn ystod pob gwyliau ysgol drwy gydol y flwyddyn am gyfanswm o rhwng 11 a 13 o wythnosau, fel a ganlyn:

Gwyliau Hanner Tymor Sulgwyn	1 Wythnos
Gwyliau'r Haf	6 Wythnos
Hanner Tymor yr Hydref	1 Wythnos
Gwyliau'r Nadolig	2 Wythnos
Gwyliau Hanner Tymor y Gwanwyn	1 Wythnos
Gwyliau'r Pasg	2 Wythnos

Gwyliau'r Nadolig sy'n cyfrif am yr amrywiaeth yn nifer yr wythnosau, gyda nifer o byllau wedi cau dros dro er mwyn gwneud mân-waith cynnal a chadw.

### Cyfranogiad

Ers cyflwyno'r MNADD, gwelwyd cynnydd yn nifer y sesiynau nofio yn ystod gwyliau'r haf ymhlith y grŵp oedran 16 oed ac iau.

Yn 2002, y flwyddyn cyn gweithredu'r MNADD, cafwyd cyfanswm o 387,000 o sesiynau nofio ymhlith y grŵp oedran 16 oed ac iau yn ystod gwyliau'r haf (CChC 2004a). Yn 2003, roedd cyfanswm y sesiynau nofio am ddim yn ystod gwyliau'r haf yn 560,000. Bu dirywiad yn ystod y ddwy flynedd ganlynol, ond yn 2006-07 (y flwyddyn olaf y mae'r ffigyrau ar gael ar ei chyfer), arhosodd y ffigyrau cymryd rhan yn uwch nag yr oeddynt yn 2002.

Gwelwyd cyfanswm y sesiynau nofio am ddim ar eu huchaf yn 2004-05 gyda chyfanswm o 830,000 o sesiynau nofio am ddim yn ystod y flwyddyn – cyfartaledd o tua 75,000 o sesiynau nofio yr wythnos. O gymharu â 2005-06, cafwyd cyfanswm o 760,000 o sesiynau nofio yn ystod y gwyliau, cyfartaledd o tua 69,000 o sesiynau yr wythnos. Yn 2006-07, cafwyd cyfanswm o 700,000 o sesiynau nofio, cyfartaledd o 64,000 o sesiynau yr wythnos (Tabl 2).

O edrych ar sesiynau nofio am ddim a'r rhai y telir amdanynt gyda'i gilydd (cyfanswm haf yr ieuencid), gwelir cynnydd sylweddol yn y nofio yn ystod gwyliau'r haf. Yn ystod haf 2006, cafwyd 400,000 o sesiynau nofio am ddim a 165,000 o sesiynau nofio y talwyd

amdanynt, cynnydd o 46% ar gyfanswm y sesiynau nofio yn 2002.

Roedd nifer cyfartal o enethod a bechgyn wedi cymryd rhan yn y MNADD.

O edrych ar yr ystadegyn cenedlaethol ar gyfer poblogaeth 16 oed ac iau Cymru (606,600 – Y Swyddfa Ystadegau Genedlaethol, 2006) a chymharu hwn â chyfanswm y sesiynau nofio am ddim a gofnodwyd gan awdurdodau lleol, mae'r gymhareb oddeutu 1.4 o sesiynau nofio ar gyfer 2004-05, 1.3 ar gyfer 2005-06 ac 1.2 o sesiynau nofio ar gyfer 2006-07 ar gyfer pob aelod o'r boblogaeth sy'n 16 oed ac iau.

Gwelwyd y gymhareb uchaf o sesiynau nofio ar gyfer pobl ieuainc ym Mlaenau Gwent a Gwynedd, ble roedd mwy na dau sesiwn nofio ar gyfer pob person ifanc yn 2006-07. Ymhlith yr awdurdodau lleol gyda chymhareb isel o sesiynau nofio o gymharu â'r boblogaeth roedd Casnewydd, Abertawe, Sir Gaerfyrddin a Chonwy, a gofnododd rhwng 0.5 a 0.6 o sesiynau nofio ar gyfer pob person ifanc.

Y rheswm am y dirywiad yn nifer y sesiynau nofio am ddim rhwng 2004 a 2006-07 yw'r ffaith bod 'newydddeb' y cynllun wedi colli ei effaith. Mae'r cynlluniau nofio am ddim eraill, fel yr un yn Glasgow, wedi profi dirywiad tebyg. Ymhlith y ffactorau eraill mae: anawsterau gyda chasglu data; cau pyllau (dau a oedd yn gyfleusterau'n gwasanaethu mwy na dim ond marchnad leol); newidiadau i'r rhaglen gan rai awdurdodau lleol a newid o sesiynau di-strwythur o blaid sesiynau strwythuredig.

### Sesiynau Nofio Di-Strwythur a Strwythuredig

Mae'r data a gyflenwyd gan awdurdodau lleol yn dangos bod mwy na 90% o'r sesiynau nofio am ddim ar gyfer y grŵp oedran hwn wedi bod ar ffurf sesiynau di-strwythur. Cefnogir hyn gan yr arolwg diweddar ar reolwyr canolfannau hamdden a ddynododd bod 90% o'r rheolwyr yn darparu cyfleoedd trochi rhydd.

Canfu arolwg y gwerthusiad ar ddisgyblion yn 2006 bod 61% (n=701) o'r bobl ieuainc yn cymryd rhan wedi dweud mai dim ond 'trochi' oeddent tra bo 35% yn chwarae gydag offer chwythadwy'. Dywedodd ychydig dros hanner yr ymatebwyr (54%) eu bod yn nofio ar hyd ac ar led y pwll ac roedd 11% yn cymryd rhan mewn chwaraeon dŵr ar wahân i nofio.

Fodd bynnag, fel a nodwyd uchod, gwelwyd pwyslais cynyddol ar ddatblygu cyfleoedd strwythuredig. Fe'u gwelwyd yn dyblu o tua 24,000 yn 2004-05 i bron i 50,000 yn 2005-06. Yn 2006-07, gwelwyd oddeutu 71,000. Er y bydd y newid hwn tuag at sesiynau strwythuredig yn lleihau cyfanswm y sesiynau nofio (pryder a fynegwyd gan reolwyr y pyllau a'r canolfannau hamdden yn 2005 a 2006), yr hyn a ddisgwyllir yw y bydd yn cynyddu'r tebygolrwydd o sicrhau cyfranogiad tymor hwy cynaladwy.

## ASTUDIAETH ACHOS 1

### Ffocws ar Weithgareddau Strwythuredig yn Sir Ddinbych

Ers dechrau'r MNADd, mae Sir Ddinbych wedi canolbwyntio ar ddarparu gweithgarwch strwythuredig ar gyfer y grŵp 16 oed ac iau yn hytrach na 'throchi rhydd'. Cyflogwyd swyddog datblygu nofio rhan amser cyn lansiad y MNADd ac yna gwnaed y swydd yn benodiad llawn amser. Credid bod cael swyddog datblygu i gydlynu rhaglen strwythuredig yn hanfodol.

Cynigir gweithgareddau strwythuredig yn ystod gwyliau'r ysgol ac yn ystod y tymor, gydag 16 o sesiynau'n cael eu cynnig bob wythnos ledled yr awdurdod yn ystod tymor yr ysgol (snorcelu, polo dŵr mini, sesiynau i rieni a phlant bach, sesiynau clwb nofio, sesiynau nofio anabledd). Mae mwyafrif y sesiynau'n llawn. Mae'r cyfleoedd ychwanegol yn ystod y tymor yn cael eu hystyried fel cyfrwng i ddatblygu nofio am ddim a'i wneud yn gynaladwy.

Yn ystod pob blwyddyn o'r cynllun rhwng 2004-05 a 2006-07, mae'r awdurdod lleol wedi profi cynnydd yn y sesiynau nofio strwythuredig a'r trochi rhydd, yn dod i gynnydd o tua 69% i gyd.

ystod y cyfnod gwyliau blaenorol (Ffigwr 2). Mae hyn yn cymharu â dim ond 43% yn cofnodi eu bod wedi cymryd rhan ymhlith y rhai 7-10 oed a 50% o'r rhai 15-16 oed (CChC 2004b, 2006). Mae ein harolwg gwerthuso gyda disgyblion blwyddyn 8 a blwyddyn 10 yn ategu'r patrwm hwn (y Pumed Adroddiad Interim). Dangosodd bod 70% o ddisgyblion blwyddyn 8 a 47% o ddisgyblion blwyddyn 10 wedi cymryd rhan yn y MNADd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Mae'n werth nodi bod plant 11 i 14 yn fwy annibynnol a symudol ac yn gallu ymweld â chanolfannau hamdden heb orfod dibynnu ar rieni efallai ar gyfer cludiant neu i fod yn bresennol tra maent yn nofio. Yn wahanol i'r plant hŷn, mae llawer yn y grŵp oedran hwn yn dal i ystyried nofio fel 'gweithgaredd hwyl'.

Er bod oedran yn gategori dewisol ar ffurflenni data'r awdurdodau lleol, fe ddarparodd mwy na'u hanner ddata ac roedd y rhain yn dangos bod ychydig dan hanner yr holl gyfranogwyr yn ystod 2004-05, 2005-06 a 2006-07 rhwng 8 ac 11 oed, gyda thraean pellach rhwng 12 ac 16 oed. Plant 7 oed ac iau oedd yn cyfrif am y gyfran isaf o nofwyr. Gellir egluro hyn yn rhannol o gofio bod raid i blant dan 4 oed gael cymhareb gyfartal o un oedolyn i un plentyn. Hefyd, mae'n rhaid i'r oedolion dalu am nofio (oni bai ei fod yn rhan o fenter benodol mewn awdurdod) ac roedd nifer o'r oedolion yn teimlo bod y sesiynau nofio am ddim yn orlawn, yn swllyd ac yn llawn plant hŷn. Felly, mae'n well gan rai sy'n rhieni i blant iau osgoi'r sesiynau am ddim.

Mae rhai awdurdodau lleol wedi targedu nofwyr iau a phlant yn eu harddegau. Mae Abertawe wedi datblygu sesiwn 'trochi ychwanegol' gyda rhan o'r pwll yn cael ei gau i ffwrdd fel bod rhieni'n gallu goresgyn y gymhareb 1:1 am fod swyddog achub bywyd ychwanegol yn cael ei ddarparu. Canolbwyntiodd Rhondda Cynon Taf (RhCT) ar nofio teuluol drwy gysylltu nofio am ddim â gweithgareddau eraill, fel pump-bob-ochr, sboncen am ddim etc. Ceir manylion pellach yn Astudiaeth Achos 2.

## Oedran y Plant yn Cymryd Rhan

Ceir amrywiaeth yn oedran y rhai sy'n cymryd rhan yn y sesiynau nofio am ddim ymhlith y bobl ieuainc. Ymhlith y rhai 11-14 oed mae'r MNADd wedi cael yr effaith fwyaf (h.y. blynyddoedd 6 i 9), gan ddenu 68% i nofio yn


**Tabl 2: Cyfanswm y Sesiynau Nofio Am Ddim fesul Cyfnod Gwyliau a Blwyddyn – Sesiynau Nofio Di-Strwythur a Strwythuredig Cyfun (16 oed ac iau)**

	2003	2004-05	2005-06	2006-07
Pasg	-	130,000	130,000	120,000
Hanner Tymor Mis Mai	-	55,000	65,000	50,000
Haf	560,000	500,000	425,000	400,000
Hanner Tymor Mis Hydref	-	60,000	60,000	50,000
Nadolig	-	15,000	10,000	17,000
Hanner Tymor Chwefror	-	70,000	70,000	65,000
Cyfanswm	560,000	830,000	760,000	700,000

Ffynhonnell: Ffurflenni Data Awdurdodau Lleol



**Ffigwr 2: Oedran y Plant yn Cymryd Rhan yn Nofio Am Ddim**



Ffynonellau: CChC 2004b, 2006

## ASTUDIAETH ACHOS 2

### Rhondda Cynon Taf – Nofio Teuluol

Yn dilyn lansiad gwreiddiol nofio am ddim ar gyfer y grŵp oedran 16 ac iau, aeth newydd-deb y trochi rhydd yn hen beth ac roedd yn amlwg bod teuluoedd yn amharod yn aml i fynychu sesiynau nofio cyhoeddus prysur. Mewn ymgais i gynyddu cyfranogiad ac annog cyfranogiad gan grwpiau teuluol, cyflwynodd RhCT sesiynau aml-weithgarwch i deuluoedd yn ystod gwyliau Pasg 2006. Mae'r cynllun 'High 5' yn galluogi defnydd am ddim i deuluoedd (ar gyfer hyd at 2 oedolyn a 4 plentyn) o'r gweithgareddau a ganlyn yn ystod holl wyliau'r ysgol:

- Defnydd am ddim o byllau nofio rhwng 11am a 4.30pm yn ystod yr wythnos
- Dosbarthiadau nofio strwythuredig
- Cyfleusterau chwaraeon mynediad agored rhwng 9am a 5pm yn ystod yr wythnos
- Dosbarthiadau chwaraeon

Mae'r cynllun hefyd yn galluogi i grwpiau o'r sector gwirfoddol neu sefydliadau cymunedol gael defnydd am ddim, yn cynnwys grwpiau o Wasanaethau Plant RhCT.

Tynnodd y Swyddogion Datblygu a gyfwelwyd gennym sylw at amrywiaeth o sialensau'n ymwneud â denu plant yn eu harddegau. Meddai un:

*"Mae canŵio a phethau fel yna'n gweithio gyda phlant 13 oed oherwydd maent o ddiddordeb iddynt. Nofio ar ei ben ei hun – na. Mae octowthio, hoci dŵr a chanŵio'n gweithio'n dda ... does gan enethod ddim diddordeb mewn nofio, felly mae'r gweithgareddau dawns yn fwy tebygol o weithio. Mae'n anodd meddwl y tu allan i'r blwch."*

Ym mhwl Llanbedr Pont Steffan (pwll a reolir yn wirfoddol yng Ngheredigion), buddsoddodd y rheolwr mewn offer a chyflwynodd nosweithiau disgo yn y pwll. Amlinellir y manylion yn Astudiaeth Achos 3.

### ASTUDIAETH ACHOS 3

#### Disgos i'r Arddegau yn Llanbedr Pont Steffan

Mewn ymgais i ddenu pobl ifanc i'r ganolfan a defnydd o'r sesiynau nofio am ddim gan blant yn eu harddegau, cyflwynodd Pwll Llanbedr Pont Steffan yng Ngheredigion ddisgos pwll. Defnyddiodd y rheolwr ei gronfa gyfalaf fechan i fuddsoddi mewn system sain, sbotoleuadau a goleuadau arnofio a chynhaliodd sesiynau disgo wythnosol yn ystod yr haf yn 2005 a 2006. Roeddent yn boblogaidd iawn gydag ymateb positif, yn enwedig ymhlith y bechgyn. Er hynny, teimlai'r rheolwr bod y ffaith ei bod yn olau'n hwyr yn yr haf yn amharu ar yr effaith ond roedd yn llawer gwell yn ystod yr hydref, y gaeaf a'r gwanwyn, gyda'r dydd yn fyrrach. Meddai, *"Mae wedi denu plant yn eu harddegau. Dydyn nhw ddim eisiau dod yma i ddringo dros offer chwythadwy nac i'r gwersi nofio a dydyn nhw ddim yn dod i ganwio nac i snorcelu. Dydyn nhw ddim eisiau'r gweithgareddau rydym ni'n eu cynnig. Roedden nhw eisiau rhywbeth arall a gyda'r disgos rydych yn cael golau isel, cerddoriaeth ... mae'n achlysur cymdeithasol."*

Fel pwll annibynnol, mae Ceredigion wedi brwydro i ddenu digon o gyllid i gynnal elfennau eraill ei raglen, ond mae awdurdodau lleol eraill wedi defnyddio'r syniad ac ers hynny maent wedi derbyn cyllid ar gyfer golau ac offer sain.

### Llythrennedd Corfforol a Nofio

Mae nofio'n cael ei gydnabod fel sgil bywyd ac yn rhan bwysig iawn o lythrennedd corfforol person ifanc (yr Adran Addysg a Sgiliau a'r Adran ar gyfer Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon 2003). Yng Nghymru, pwysleisiodd newidiadau arfaethedig i'r cwricwlwm addysg gorfforol sydd i ddod i rym yn 2008 (LICC 2007) bwysigrwydd nofio wrth ddatblygu sgiliau ac fel elfen berthnasol o'r pedwar maes profiad – iechyd, ffitrwydd a lles, gweithgareddau creadigol, gweithgareddau anturus a gweithgareddau cystadleuol. Mae'n cael ei ystyried fel gweithgaredd perthnasol ar ei liwt ei hun fel drws i amrywiaeth o weithgareddau eraill cysylltiedig â nofio (e.e. nofio cyfamserol, deifio) ac i amrywiaeth o weithgareddau antur (e.e. hwylio, rhwyfo, gwyntsyrrffio,

canwio) a arenwir yn y cwricwlwm arfaethedig ar gyfer Cyfnodau Allweddol 2-4.

Dengys Tabl 3 bod y MNADd wedi darparu cyfleoedd nofio ychwanegol i ieuentid 11-16 oed, gyda 63% yn nofio drwy gyfrwng y MNADd, ond dim ond 40% yn cymryd rhan mewn nofio fel rhan o gwricwlwm yr ysgol. Mae'r patrwm yn gwbl groes ar gyfer plant 7-11 oed gyda dwy ran o dair yn mynd i nofio fel rhan o gwricwlwm eu hysgol ond ychydig llai na 50% yn cymryd rhan yn y MNADd (CChC 2004b, 2006).

Er bod nofio'n ofynnol yng nghwricwlwm Cyfnod Allweddol 2, nid yw llawer o blant yn cael digon o gyfle i ddysgu nofio tra yn yr ysgol gynradd. Mae nifer o awdurdodau lleol wedi defnyddio'r MNADd fel catalydd i roi sylw i'r mater hwn ac wedi darparu gwersi nofio naill ai gyda chymorthdal llawn neu gymorthdal rhannol. Mae Pen-y-bont ar Ogwr a Threfynwy er enghraifft wedi targedu plant ysgol nad ydynt yn gallu nofio a thynnir sylw at eu mentrau penodol yn Astudiaeth Achos 4.

### ASTUDIAETH ACHOS 4

#### Nofio Ysgol – Trefynwy a Phen-y-bont ar Ogwr

Ar y cyd â'r Uned Fynediad ar gyfer Ysgolion a Myfyrwyr, anfonodd Sir Fynwy ffurflen gais nofio am ddim at yr holl blant a phobl ieuainc oedd yn derbyn prydau ysgol am ddim neu a oedd yng ngofal y Gwasanaethau Cymdeithasol. Cafodd y defnydd o ddydd i ddydd ei fonitro'n ofalus ac arenwyd y plant cymwys yn flynyddol.

Efelychodd Pen-y-bont ar Ogwr dull Sir Fynwy o weithredu ac anfonodd y swyddog datblygu nofio 3000 o lythyrau at rieni plant a oedd yn derbyn prydau ysgol am ddim, yn cynnig gwersi nofio am ddim am wythnos yn ystod gwyliau'r haf, a chan hysbysebu'r prisiau is a gynigid am wersi nofio rheolaidd. Hefyd, creodd Pen-y-bont ar Ogwr bartneriaeth gan ddod ag AGChY (AG a Chwaraeon Ysgol) a nofio at ei gilydd drwy gynnig gwersi nofio am ddim ar ddiwedd tymor yr haf i blant cynradd nad oeddent yn gallu nofio hyd pwll ac a oedd yn byw yn ardal Bro Ogwr. Gwelodd rheolwr y pwll lleol, Llangeinor, gynnydd mewn cyfranogiad yn ystod yr haf yn dilyn y cwrs dwys.

Tabl 3: Cyfran y Plant yn Ymwneud â Gwahanol Fathau o Nofio

Oedran	Cwricwlaidd %	Allgyrsiol %	Allgyrsiol Rheolaidd %	Clwb %	Clwb Rheolaidd %	Y MNADd %
7-11 (2006)	62	31	23	41	40	48
11-16 (2004)	40	12	7	22	15	63

Ffynonellau: CChC 2004b, 2006  
Sylwer – Diffinnir 'Rheolaidd' fel o leiaf deg gwaith y flwyddyn



## Nofio Am Ddim fel Catalydd ar gyfer Datblygu

Mae'r MNADD wedi cael effaith o ran cynyddu nifer yr ymweliadau â phyllau a chanolfannau hamdden lleol. Mae arolygon cyfranogiad CChC ei hun wedi dangos bod mwy na hanner y plant 7-16 oed yn ymweld â'u canolfan hamdden leol o leiaf unwaith yr wythnos ac mae hyn yn awgrymu, yn wahanol i bobl hŷn, nad yw'r lleoliad ei hun yn rhwystr o gwbl i gyfranogiad (CChC 2004b, 2006). Awgryma hyn hefyd bod potensial i ddatblygu nofio a gweithgareddau corfforol eraill yn seiliedig ar y lleoliadau hyn a cheisio datblygu clybiau newydd ac ehangu'r aelodaeth o'r clybiau presennol. Yn ein harolwg ar bobl ieuainc yn 2006, gwelwyd bod cymdeithasu'n bwysig gydag 89% o ymatebwyr yn teithio i bwl gyda ffrindiau (Pumed Adroddiad Interim).

Mae'r MNADD wedi bod yn gatalydd i gyfleoedd chwaraeon a gweithgarwch corfforol, yn cynnwys polo dŵr, snorcelu, canŵio, achub bywyd a nofio cyfamserol. Fel y dywedodd un swyddog datblygu chwaraeon a gyfwelwyd gennym, roedd y MNADD yn hanfodol i'r datblygiadau hyn:

*"Nid dim ond y nofio sy'n bwysig i mi, ond y gweithgareddau dŵr i gyd. Mae fy sesiynau strwythuredig wedi cynyddu aelodaeth o'r clwb canŵio, mae gennym glwb polo dŵr nad oedd gennym erioed o'r blaen, mae gennym glwb cyfamserol yn cael ei sefydlu ac ni fyddai hynny wedi digwydd erioed oni bai am nofio am ddim."*

Mae twf polo dŵr ymhlith pobl ieuainc yng Nghymru wedi bod yn ddatblygiad tebyg o ganlyniad uniongyrchol i'r MNADD. Mae wedi tyfu cymaint fel bod grant wedi'i ddyfarnu'n ddiweddar yn Ne Cymru i gefnogi cynghrair yn cynnwys 10 awdurdod lleol. Gwelir arfer dda pellach ar waith yn Astudiaeth Achos 5 gyda Chaerfyrddin a Chasnewydd wedi rhoi pwyslais ar ddatblygu clybiau canŵio a nofio cyfamserol, canŵio yng Nghaerfyrddin a'r nofio yng Nghasnewydd.

I grynhoi, gallai effaith tymor hwy dulliau datblygu mwy strwythuredig fod yn llawer mwy sylweddol dros gyfnod o amser o ran newid ymddygiad a chynnig cyfleoedd gweithgarwch corfforol cynaladwy hirdymor yn hytrach na sesiynau 'trochi' di-strwythur ac ni ddylid barnu effeithiolrwydd y MNADD felly yn nhermau'r nifer sydd wedi cymryd rhan. Mae math ac ansawdd y profiad maent yn ei gael yn bwysig iawn hefyd.

### ASTUDIAETH ACHOS 5

#### Datblygiad Clwb: Sir Gaerfyrddin a Chasnewydd

Mae partneriaeth rhwng Adran Hamdden Sir Gaerfyrddin a Chanolfan Ganŵio Llandysul wedi gweld sesiynau blasu canŵio rhad ac am ddim yn cael eu cynnal yn ystod gwyliau'r ysgol mewn pum pŵll yn yr awdurdod. Yr amcan byrdymor yw hybu'r gamp a darparu digon o gyfleoedd i alluogi i bobl ieuainc gymryd rhan mewn amgylchedd diogel, dan do. Yn yr hirdymor, y nod yw sefydlu canŵio ar lefel clwb ym mhob pŵll, gydag unigolion talentog yn cael eu bwydo i ganolfan awyr agored Llandysul. Hefyd, bydd creu cynghrair bolo canŵio'n cynnal diddordeb ac yn cynorthwyo'r awdurdod lleol gyda chyrraedd targedau Dringo'n Uwch.

Sefydlwyd targed o 200 o aelodau clwb newydd y flwyddyn mewn pum pŵll. Yn ystod y gwyliau ysgol i gyd, cynhelir sesiynau am ddim gan hyfforddwy'r cymwys i ddenu aelodau newydd. Ond mae wedi profi'n anodd sicrhau amser yn y pŵll ac mae rhai rheolwyr wedi bod yn amharod i storio offer.

Gwelodd Casnewydd bod y nifer cynyddol o enethod yn eu harddegau yn rhoi'r gorau iddi yn fater angen sylw. Rhoddodd y swyddog datblygu sylw i hyn drwy gyflwyno sesiynau nofio cyfamserol, fel cynllun peilot i ddechrau, yn ystod gwyliau haf 2005.

Yn dilyn poblogrwydd y gweithgaredd, cyflwynwyd sesiynau dilynol ym Mhwl Rhanbarthol De Ddwyrain Cymru fis Ionawr 2006 a ffurfiwyd clwb yn aelod o Gymdeithas Nofio Amatur Cymru. Mae gan y clwb 51 o aelodau benywaidd yn awr, i gyd rhwng 5 a 13 oed, criw o hyfforddwy'r, dyfarnwyr a gwirfoddolwyr cymwys a llwybr datblygu effeithiol. Mae'r clwb wedi cynnal cystadleuaeth nofio gyfamserol gyntaf Cymru fis Mehefin 2007 gyda mwy na 60 o gyfranogwyr.

Mae'r MNADD wedi darparu cyfle delfrydol i gyflwyno a datblygu'r gweithgaredd hwn drwy gyfrwng sesiynau blasu, trwy brynu offer arbenigol a thrwy hyrwyddo a sicrhau ymwybyddiaeth ychwanegol.

Hefyd mae Casnewydd wedi sefydlu clwb polo dŵr o ganlyniad i sesiynau am ddim llwyddiannus yn ystod y gwyliau a nawr mae'n sefydlu sesiwn anabledl wythnosol i ddilyn y llwyddiant yn yr haf.

## Nofio Am Ddim a 'Grwpiau Anodd eu Cyrraedd'

Mae cyfarwyddyd polisi nofio am ddim yn dweud ei bod yn ofynnol i awdurdodau lleol ddarparu ar gyfer plant ag anableddau a 'grwpiau anodd eu cyrraedd' eraill fel DLIE a'r rhai yn byw yn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf. Nid oedd yn ofynnol i awdurdodau lleol gyflenwi data am y grwpiau penodol o blant a phobl ieuainc a gymerodd ran ac felly mae'n anodd gwerthuso maint effaith y MNADD ar 'grwpiau anodd eu cyrraedd'. Fodd bynnag, mae'r data arall a gasglwyd fel rhan o'r gwerthusiad yn cynnig ffeithiau diddorol am y mater hwn.

Mae'r adolygiad anabledl ac arolygon rheolwyr y canolfannau'n awgrymu bod effaith y MNADD ar y rhai 16 oed ac iau sydd ag anableddau wedi bod yn amrywiol. Er bod y rhan fwyaf wedi dweud eu bod wedi darparu cyfleoedd nofio am ddim yn unol â chyfarwyddyd polisi (cynlluniau cyflwyno awdurdodau lleol), dywedodd llai na hanner yr ymatebwyr yn arolwg y rheolwyr ar y canolfannau hamdden yn 2006 bod camau pendant wedi'u cymryd i ddenu plant gydag anableddau. Os cynhaliwyd mentrau o'r fath, roedd y rhain wedi cynnwys: bron i hanner yn sefydlu sesiynau penodol ar gyfer plant a phobl ieuainc gydag anabledl; un rhan o bump yn cysylltu â Swyddogion Datblygu Chwaraeon Anabledl; a bron i un rhan o bump yn cynnig amser am ddim yn y pwll i glybiau a grwpiau'n bodoli eisoes.

Amlinellwyd enghreifftiau yn yr adolygiad anabledl a gynhaliwyd fel rhan o'r Pedwerydd Adroddiad Interim ac amlinellir dull Bro Morgannwg a Gwynedd o weithredu yn Astudiaeth Achos 6.

### ASTUDIAETH ACHOS 6

#### Sesiynau Anabledl

Yn 2006, sefydlodd Bro Morgannwg sesiynau i hybu hyfforddiant nofio i blant gydag anableddau. Wedi ymgynghori gyda Ffederasiwn Chwaraeon Anabledl Cymru, lansiodd y swyddog chwaraeon anabledl ymgyrch farchnata gyda phosteri, baneri a ffurflenni cais i hybu nofio am ddim. Er bod rhai o'r cyfranogwyr yn mynychu sesiwn eisoes, roedd y mwyafrif yn gyfranogwyr newydd ac wedi cael eu cyflwyno i'r gamp o ganlyniad i'r MNADD. Yn ystod y cyfnod o chwe wythnos, cynigiwyd cyfarwyddyd i'r plant i gyd ac fe welwyd pob un ohonynt yn gwella, gyda rhai'n ymuno â chlwb lleol ar gyfer plant ac oedolion ag anableddau.

Yng Ngwynedd, cynhelir sesiynau nofio am ddim penodol ar gyfer plant ag anabledl ym mhob un o'r 7 pwll yng Ngwynedd. Mae'r sesiynau'n amrywio o rai gydag ychydig o gyfarwyddyd i eraill a hybir fel sesiynau agored. Er bod y sesiynau'n parhau i gael eu cynnal, dywedir bod nifer y cyfranogwyr sy'n mynychu'n siomedig.

Ceir tystiolaeth bod y MNADD wedi denu plant a phobl ieuainc o ardaloedd difreintiedig yn gymdeithasol i gymryd rhan mewn sesiynau nofio. Mae ychydig dros hanner yr ymatebwyr yn arolwg 2006-07 ar reolwyr y canolfannau hamdden (54%, n =77) yn credu bod y cynllun yn effeithiol yn denu plant o ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf. Yn Sir y Fflint, er enghraifft, mae holl breswylwyr Cymunedau yn Gyntaf yn cael blaenoriaeth archebu er mwyn manteisio ar y rhaglenni gweithgarwch yn eu pyllau.

Yn ôl yr arolwg yn 2006 ar reolwyr, mae unarddeg awdurdod lleol wedi targedu darpariaeth nofio am ddim benodol ar gyfer plant a phobl ieuainc o gefndiroedd difreintiedig. Ceir sawl enghraifft o arfer dda ac mae Astudiaeth Achos 7 yn amlinellu menter allgyrhaeddol RhCT. Er bod y prif swyddogion a gyfwelwyd yn 2006 wedi crybwyll y sialensau a'r anawsterau a wynebwyd wrth geisio cynnwys plant o rai o'r ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf, cafwyd cydnabyddiaeth eang bod 'cost' yn gallu, ac yn, gwneud gwahaniaeth i'r ardaloedd hyn, hyd yn oed i'r graddau bod plant yn methu cymryd rhan am nad oes ganddynt wisg nofio.

### ASTUDIAETH ACHOS 7

#### Cymunedau yn Gyntaf a Nofio Am Ddim yn RhCT

Gyda Chymunedau yn Gyntaf a Hybu Iechyd, mae adran hamdden RhCT wedi lansio cynllun peilot yn cynnig cyfle i bobl ieuainc gymryd rhan mewn cynllun bwyta'n iach. Yn dilyn y sesiynau nofio am ddim strwythuredig a'r sesiynau sych, anogir y cyfranogwyr i wneud eu cinio iach eu hunain yng nghanolfannau hamdden yr awdurdod, a derbyn gwybodaeth am faeth. Profodd y cynllun yn llwyddiannus yn ystod Sulgwyn 2006 ac fe'i ehangwyd i bump ardal Cymunedau yn Gyntaf yn ystod haf 2006. Nod y cynllun yw datblygu cyswllt agos â sefydliadau lleol ac mae'n dibynnu'n helaeth iawn ar gymorth gwirfoddol.

Dim ond dau awdurdod lleol, Caerdydd ac Abertawe, sydd wedi pwysleisio'r ddarpariaeth ar gyfer plant o gefndiroedd DLIE (gweler Astudiaeth Achos 8). Er nad yw ethnigrwydd yn cael blaenoriaeth uchel mewn rhai pyllau, dylid nodi y dylai'r holl reolwyr allu dangos hyn drwy gyfrwng asesiad o anghenion (yn cynnwys galw cudd) yn eu dalgylch.

Dim ond dau awdurdod lleol, Caerdydd ac Abertawe, sydd wedi pwysleisio'r ddarpariaeth ar gyfer plant o gefndiroedd DLIE (gweler Astudiaeth Achos 8). Er nad yw ethnigrwydd yn cael blaenoriaeth uchel mewn rhai pyllau, dylid nodi y dylai'r holl reolwyr allu dangos hyn drwy gyfrwng asesiad o anghenion (yn cynnwys galw cudd) yn eu dalgylch.



## ASTUDIAETH ACHOS 8

### Prosiect DLIE yng Nghaerdydd

Gyda Merched ar Waith a grwpiau cymunedol eraill, sefydlodd rheolwr Pwll Maendy nifer o sesiynau i ferched yn unig. Maent yn gweithredu mewn pedwar pwll yng Nghaerdydd yn awr ac yn denu nifer fawr o gyfranogwyr benywaidd. Roedd y datblygiad hwn yn rhan o gynllun datblygu tair blynedd DLIE i hybu nofio ymhlith merched o gefndiroedd DLIE. Arenwodd y cynllun grŵp o ferched a fyddai'n hyfforddi fel swyddogion achub (ac fe gymhwysodd 7 ohonynt yn llawn ac maent yn cael eu cyflogi gan Gyngor Caerdydd yn awr), cyflogwyd gweithiwr allgyrraedd DLIE a gosodwyd dallenni o amgylch y pwll ym Maendy.

Mae'r sesiynau i ferched yn unig yn eithriadol boblogaidd, yn arbennig ymhlith grwpiau DLIE, a bellach maent yn denu hyd at hanner cant o unigolion i bob un o'r 8 o sesiynau a gynhelir bob wythnos. Ffurfiwyd cysylltiadau â gweithgareddau sych a chynhelir bore wythnosol i ferched yn unig ym Mhwll Maendy fel bod y merched yn cael defnyddio'r gym ffitrwydd a'r stiwdio ddawns, a'r pwll nofio hefyd. Mae merched 60+ oed yn cael mynediad am ddim i'r sesiynau nofio i ferched yn unig.

Cred rheolwr Pwll Maendy bod effaith y cynllun wedi bod yn arwyddocaol, gan sicrhau cydbwysedd yn sgil gwaith allgyrraedd cymunedol effeithiol, yn arwain yn aml at refeniw ariannol cynyddol ar gyfer y cyfleuster.

Yn dilyn llwyddiant y sesiynau hyn i ferched yn unig, mae Cyngor Caerdydd wedi cyflogi gweithiwr allgyrraedd DLIE gwrywaidd yn awr. Bydd sesiynau dawn Bollywood yn ddatblygiad pellach tebygol ledled y ddinas, gan ddarparu cyfleoedd gweithgarwch corfforol ychwanegol.

### Gwyliau Dŵr (Cenedlaethol a Lleol)

Astudiodd y tîm gwerthuso effaith yr Ŵyl Ddŵr Genedlaethol a weithredwyd am dair blynedd rhwng 2003 a 2005. Dynododd y dystiolaeth ryw faint o effaith o ran darparu cyhoeddusrwydd ar gyfer y MNADD a chyfleoedd i blant a rhieni ymweld â'r Pwll Cenedlaethol yn Abertawe. Cafwyd hefyd gyfleoedd i blant gydag anableddau nofio a chystadlu ochr yn ochr â phlant abl. Tynnwyd y gefnogaeth i'r Ŵyl yn ôl, fodd bynnag, oherwydd canfu'r gwerthusiad nad oedd mwyafrif y nofwyr wedi'u canfod drwy gyfrwng y MNADD ac nad oedd yr ymdrech oedd yn angenrheidiol gan yr awdurdodau lleol (gyda rhai ohonynt heb fynychu er iddynt dderbyn cyllid) a CNAC yn cyd-fynd â'r canlyniadau (y Trydydd Adroddiad Interim).

Fodd bynnag, mae rhai awdurdodau wedi datblygu gwyliau lleol. Yn 2006, cynhaliodd sir Casnewydd ei Gŵyl Ddŵr ei hun (gweler Astudiaeth Achos 9) yn annog nofwyr a oedd wedi cymryd rhan yn y MNADD ac mae hyn wedi cael ei ehangu ar gyfer 2007 i ddwy ŵyl – un yn y Gogledd ac un yn Ne Cymru.

## ASTUDIAETH ACHOS 9

### Gŵyl Ddŵr Gymunedol Casnewydd, 2006 a 2007

Yn ymwybodol bod cyfran helaeth o blant o ardaloedd difreintiedig yn nofwyr gwan neu'n methu nofio, trefnodd Casnewydd ŵyl ddŵr yn cynnwys gweithgareddau dŵr nad oedd yn gofyn i'r cyfranogwyr fod yn nofwyr cryf.

Roedd holl aelodau'r timau wedi cymryd rhan mewn sesiynau nofio am ddim rheolaidd yn ystod gwyliau'r haf. Aelodau'r timau polo oedd plant oedd wedi mynychu sesiynau strwythuredig nofio am ddim drwy gydol yr haf – hoci tanddwr, polo dŵr, aerobics dŵr a nofio cyfamserol – ond trefnwyd y timau cymunedol o blith y rhai oedd wedi dangos diddordeb ac wedi mynychu sesiynau wythnosol yn y Pwll Rhanbarthol i baratoi ar gyfer yr achlysur.

Roedd yr ŵyl yn cynnwys pedair camp – trnament polo dŵr mini, her rhwystrau mewn dŵr bâs, rasys cyfnewid i dimau a helpa drysor i gloi. Roedd 16 o dimau'n cystadlu (cyfanswm o 200 o blant) – pedwar tîm pwll (Canolfan Casnewydd, y Pwll Rhanbarthol, Maendy a Llisweri), a 12 o dimau cymunedol a drefnwyd gan y swyddogion datblygu chwaraeon cymunedol. Noddwyd yr achlysur gan Uskmouth Power, gan ddarparu bagiau o nwyddau a lluniaeth, ac fe'i cefnogwyd gan y seren nofio cenedlaethol, David Davies.

Wedi cymryd rhan yn yr ŵyl leol hon, roedd y timau buddugol yn mynd ymlaen i gynrychioli Casnewydd yng ngŵyl ddŵr De Cymru, a gynhelir rhwng awdurdodau lleol eraill yn ystod hanner tymor mis Hydref.

## Cyfranogiad Cynyddol: Y Grŵp Oedran 60+

### Argaeledd Nofio Am Ddim

Roedd y cyfarwyddyd polisi ar gyfer nofio am ddim ar gyfer y boblogaeth 60+ oed yn datgan bod raid iddo fod ar gael y tu allan i wyliau'r ysgol. Yn ymarferol fodd bynnag, mae 20 allan o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru'n darparu nofio am ddim yn awr i bobl dros 60 oed drwy gydol y flwyddyn. Un o'r prif sialensau fu union nifer yr oriau ar gael yn ystod y dydd o ystyried y gwahanol ofynion a materion cysylltiedig â rhaglennu pyllau. I lawer o byllau, yn enwedig ar ddechrau'r MNADd, roedd yr amseroedd wedi'u cyfyngu i nofio yn gynnar yn y bore a gyda'r nos, gyda phrin ddim pyllau'n cynnig amseroedd yn ystod y dydd.

Datgelodd arolygon rheolwyr y canolfannau (2005 a 2006) bod rhyw faint o gynnydd wedi'i wneud. Dangosodd arolwg 2006 bod 40% (n=74) o byllau'n cynnig cyfartaledd o naw awr o nofio am ddim bob dydd i gymharu â dim ond 27% yn cynnig yr un faint o amser yn 2005. O ran argaeledd yn ystod y dydd, gwnaed cynnydd yn y fan hon hefyd. Dengys Tabl 4 bod 79% o reolwyr wedi dweud bod cyfleoedd nofio am ddim ar gael yn ystod y bore (9.00am-hanner dydd) a 91% (n=74) yn ystod y prynhawn (2.00pm-6.00pm).

Er bod y mater hwn angen sylw pellach (gweler Pennod 3), mewn rhai awdurdodau gwelwyd ymdrech ar y cyd i gyflwyno newidiadau i raglenni a thrwy hynny ddarparu mwy o amseroedd ar gyfer sesiynau nofio i oedolion.

### Patrymau Cymryd Rhan

Rhwng mis Tachwedd 2004 a mis Gorffennaf 2007, cymerodd y rhai dros 60 oed ran mewn ychydig dros un a hanner miliwn o sesiynau nofio dan nawdd y MNADd, gyda rhaniad rhwng y dynion a'r merched o 51% ar gyfer y dynion a 49% ar gyfer y merched. Ar lefel Cymru gyfan, ceir patrwm o gynyddu cyfranogiad dros amser. Fis Tachwedd 2004, roedd nifer y sesiynau nofio'n 42,000. Gwelwyd y cyfnodau brig ar gyfer y rhai 60+ yn cymryd rhan fis Medi 2006, Hydref 2006 a Ionawr 2007, pan gofnodwyd 58,000 o sesiynau nofio. Yn gyffredinol, mae'r ffigwr yn awgrymu twf graddol a

chynladwy yn lefel y sesiynau nofio am ddim ar gyfer y rhai 60+ fel a ddangosir yn Ffigwr 3.

Dywedodd 82% o reolwyr (arolwg 2006) bod y cynllun yn denu newydd-ddyfodiaid a chredai 92% ei fod wedi arwain at gynnydd yn amledd y nofio ymhlith y defnyddwyr presennol. Pwysleisiodd yr arolwg ar ddefnyddwyr a gynhaliwyd fis Mehefin 2005 bod mwyafrif y cyfranogwyr yn nofio eisoes ac yn elwa o gynyddu eu lefelau gweithgarwch corfforol. Dangosodd bod 79% yn nofwyr eisoes ac nad oedd 21% wedi nofio'n rheolaidd cyn y MNADd.

O ran nifer y sesiynau nofio mewn perthynas â'r boblogaeth leol (yr holl breswylwyr 60+ oed) yn 2006-07, gwelwyd y gymhareb uchaf o sesiynau nofio y pen ymhlith y rhai 60+ oed ym Mhen-y-bont ar Ogwr (2.1 o sesiynau nofio), Casnewydd (1.7 o sesiynau nofio), Merthyr (1.1 o sesiynau nofio) a Chaerdydd (1.1). Canfuwyd y nifer lleiaf o sesiynau nofio o gymharu â'r boblogaeth yn Sir Gaerfyrddin (0.4), Abertawe (0.5), Ceredigion (0.5) a Wrecsam (0.7).

### Sesiynau Nofio Di-Strwythur a Strwythuredig

Roedd mwyafrif helaeth (92%) sesiynau nofio'r grŵp oedran hwn yn ddi-strwythur, h.y. y nofiwr wedi sefydlu ei batrwm ymarfer ei hun heb gymorth. Fel gyda'r cynllun 16 oed ac iau, fodd bynnag, mae ffurflenni data'r awdurdodau lleol yn dangos cynnydd, dros amser, yn nifer y sesiynau nofio am ddim strwythuredig.


Darparodd yr arolwg ar reolwyr canolfannau ddata am y gweithgareddau a gynigiwyd i'r grŵp oedran 60+ yn 2005 a 2006 (gweler Tabl 5). Dangosodd y canlyniadau gynnydd yn nifer y sesiynau i oedolion yn unig a'r gwersi nofio (gyda chymorthdal llawn a rhannol). Datgelodd y tabl hefyd y gostyngiad yn nifer y sesiynau penodol i rai 60+ oed.

Tabl 4: Argaeledd Nofio Am Ddim yn 2006 i'r rhai 60+

Cyfnodau o amser	Cyfartaledd yr oriau ar gael bob dydd				
	Dim %	0.1-1 awr %	1.1-2 awr %	2.1-3 awr %	Mwy na 3 awr %
6.00-9.00am	20	38	30	12	-
9.00-Hanner dydd	33	23	17	27	-
12.00-2.00pm	11	32	57	-	-
2.00-6.00pm	9	16	23	25	27
6pm ymlaen	8	27	46	11	8

Ffynhonnell: Arolwg 2006 ar Reolwyr y Canolfannau

**Ffigwr 3: Cyfranogiad y Rhai 60+ yn Nofio Am Ddim – Sesiynau Nofio Di-Strwythur a Strwythuredig Cyfun**



Ffynhonnell: Ffurflenni Data Awdurdodau Lleol

**Tabl 5: Y Gweithgareddau a Gynigiwyd fel Rhan o'r Cynllun 60+**

Gweithgaredd	2005 % (n=85)	2006 % (n=80)
Sesiynau i oedolion yn unig	75	89
Cadw'n heini mewn dŵr	69	71
Gwersi nofio am ddim	58	65
Sesiynau 60+ penodol	46	36
Sesiynau 50+ penodol	38	36
Fitswim Cymru	32	34
Gymnasteg dŵr	11	13
Arall	7	10
Gwersi nofio gyda chymorthdal rhannol	-	7

Ffynonellau: Arolygon 2005 a 2006 ar Reolwyr Canolfannau Sylwer – Roedd yr ymatebwyr yn gallu dewis mwy nag un ateb aml-ddewis, felly ni fydd swm y canrannau'n dod i 100.

Datgelodd cyfweiliadau gyda swyddogion datblygu yn 2006 bod mwy o gyfranogwyr newydd wedi'u recriwtio wrth i awdurdodau lleol farchnata sesiynau strwythuredig newydd yn benodol (fel aerobics dŵr). Ystyrir cadw'n heini mewn dŵr fel ymarfer eithriadol bwysig ac fe'i gwelir fel un o effeithiau mwyaf positif y MNADD. Credai 91% o'r rheolwyr hamdden ei fod yn effeithiol a chredai dwy ran o dair bod cyflwyno gweithgareddau fel cadw'n heini yn y dŵr a gymnasteg dŵr wedi bod yn atyniadol i gwsmeriaid newydd. Roeddent yn dweud bod y dosbarthiadau'n gyffredinol lawn a bod galw mawr ymhlith y merched a'r grŵp oedran 60+ yn arbennig. Dywedodd rhai a gyfwelwyd pob pobl 'nad ydynt yn mwynhau nofio' yn mynychu'r sesiynau cadw'n heini yn y dŵr a'r gymnasteg dŵr (gweler Astudiaeth Achos 10).



## ASTUDIAETH ACHOS 10

### Gymnasteg Dŵr yng Nghanolfan Hamdden Pen-y-bont ar Ogwr

Gan ddefnyddio cyllid cais y MNADd, mae gosod gym ddŵr yn 2005 yng Nghanolfan Hamdden Pen-y-bont ar Ogwr wedi profi'n eithriadol boblogaidd ymhlith y grŵp oedran 60+. Mae nifer yr unigolion sy'n mynychu'r gweithgareddau nofio am ddim 60+ yn y ganolfan wedi cynyddu fwy na 100% (o tua 290 o ddefnyddwyr fis Ebrill 2005 i tua 590 ym mis Mawrth 2007).

Mae'r dystiolaeth gan y rhai'n cyflwyno nofio am ddim ym Mhen-y-bont ar Ogwr yn awgrymu bod y gym wedi bod yn llwyddiannus wrth ddenu i'r ganolfan ddefnyddwyr newydd ac unigolion a arferai fod yn segur. Ceir llawer iawn sy'n ymwneud â chynllun cyfeirio lleol gan feddyg teulu'n mynychu. Dywedir bod y sesiynau gym dŵr ymhlith y sesiynau prysuraf yn y pwll yn y ganolfan.

### Nofio fel Gweithgaredd Cymdeithasol

Ceir dystiolaeth gref hefyd am werth cysylltu nofio am ddim â gweithgareddau cymdeithasol eraill. Mae nifer o awdurdodau lleol wedi cyflwyno elfen gymdeithasol fel ffordd o oresgyn y syniad bod nofio'n weithgaredd cymharol unig. Mae Caerdydd wedi rhoi sylw i'r mater hwn drwy ddarparu paned ac annog cyfranogwyr i gwrdd ag eraill a chymdeithasu wedi'r sesiynau Cadw'n Heini yn y Dŵr (gweler Astudiaeth Achos 11).

## ASTUDIAETH ACHOS 11

### Nofio a Chymdeithasu 60+ yng Nghaerdydd

Mae Canolfan Hamdden Eastern wedi sefydlu clwb 'wedi nofio' fel bod cyfle i bobl gymysgu a chymdeithasu wedi cymryd rhan yn eu gweithgaredd. Mae'r sesiynau cadw'n heini yn y dŵr wedi profi'n eithriadol boblogaidd ymhlith unigolion 60+ oed a nawr maent yn gweithredu bob bore yn ystod yr wythnos bron, ac yna cynhelir cyfarfod cymdeithasol gyda phaned. Mae'r MNADd wedi gweithredu fel catalydd i annog nifer o bobl nad ydynt yn gallu nofio i gymryd rhan. Bellach mae gan Ganolfan Hamdden Eastern 30-40 o gyfranogwyr ym mhob sesiwn Cadw'n Heini a chynnydd o fwy na 2000 o sesiynau nofio rhwng Ebrill 2006 a Mawrth 2007.

Yn ychwanegol at y rhaglen reolaidd, cynhaliwyd digwyddiadau mini, yn cynnwys 'nofio'r sianel' ac 'aerobathon' ac fel rheol dilynir y digwyddiadau hyn gan gyfarfod cymdeithasol. Gan weithio'n agos â rheolwr y ganolfan, mae'r swyddog datblygu chwaraeon yn gweld yr elfen gymdeithasol yr un mor bwysig â'r gweithgaredd corfforol a wneir.

Ym Merthyr, ymatebodd yr awdurdod lleol i alwadau gan y gymuned leol a darparwyd cludiant i ac o'r pwll ac, o'r herwydd, mae wedi bod yn llwyddiant. Maent wedi ffurfio 'Cymdeithas Drochi'r Gurnos' (ceir manylion pellach yn Astudiaeth Achos 14).

### Gwaith Allgyrhaeddol Cymunedol

Dangosodd yr arolwg yn 2006 ar y rheolwyr bod tri chwarter ohonynt wedi gwneud gwaith allgyrhaeddol neu gyswllt gyda sefydliadau partner a bod y math yma o weithgarwch wedi cynyddu ers yr arolygon cynharach a gynhaliwyd yn 2005 a 2003. Mae rhwydweithio gydag asiantaethau ac adrannau eraill yn yr awdurdod lleol wedi bod yn allweddol er mwyn sicrhau ymrwymiad i gymryd rhan. Disgrifiodd un swyddog datblygu a gyfwelwyd yr effaith positif a gafodd y dull cymunedol o weithredu:

*"Mae ein gweithwyr cyswllt yn gwneud apwyntiad i fynd i ymweld â chartrefi henoed ac mae hynny wedi gweithio'n dda. Yr hyn rydym yn ei weld yw ein bod yn cael llawer o bobl 70 ac 80 yn dod yn awr, a dydi hynny ddim wedi digwydd o'r blaen. Y rheswm am hyn yw eu bod yn gwybod yn awr eu bod yn mynd i gael gwersi ac y bydd rhywun yno i'w helpu i lawr y grisiau ac i wneud y gwahanol bethau oedd yn rhwystr iddynt o'r blaen."*



Yn Nhorfaen, fel rhan o'r gwaith o hybu a chreu ymwybyddiaeth o'r ganolfan hamdden wedi'i hadnewyddu'n llwyr (ac a ailenwyd yn ganolfan fyw'n iach), trefnwyd achlysur i ddenu pobl hŷn a oedd yn byw yn y gymuned. Ceir manylion pellach yn Astudiaeth Achos 12, sy'n dangos y llwyddiant sy'n bosibl o weithio gan dargedu grwpiau penodol.

## **ASTUDIAETH ACHOS 12**

### **Dawns De a Sioe Deithiol i'r Henoed, Torfaen**

Fis Chwefror 2007, gwahoddwyd y bobl hŷn sy'n byw mewn llety lloches yn Nhorfaen i ddawns de yng Nghanolfan Fyw'n Iach Pontypŵl gyda'r amcan o wella hygyrchedd y ganolfan. Darparwyd cludiant, paned a chyfarwyddyd dawnsio'n rhad ac am ddim a defnyddiodd y trefnyddion y cyfle i fynd â'r mynychwyr ar daith o amgylch y ganolfan newydd er mwyn eu gwneud yn ymwybodol o'r cyfleusterau a'r gweithgareddau ar gael iddynt, yn arbennig nofio am ddim. Mynychodd rhyw 80 o unigolion rhwng 55 a 90 oed yr achlysur a, thrwy gyfrwng holiaduron, cafwyd gwybod eu bod wedi mwynhau'r achlysur.

Dyweddodd oddeutu hanner y rhai a fynychodd bod cludiant yn broblem iddynt ac na fyddent wedi gallu ymweld â'r ganolfan fel arall. Pe bai cludiant yn cael ei ddarparu, dywedodd yr ymatebwyr y byddent yn fodlon dod eto a rhoi cynnig ar weithgareddau newydd, gan ddweud y byddai ganddynt ddiddordeb mewn cymryd rhan mewn nofio, aerobics dŵr ac ymarfer effaith isel.

Ers hynny, mae grŵp cadw'n heini mewn dŵr wedi cael ei sefydlu. Yn dilyn ei lwyddiant, bwriedir cynnal achlysur 'cadw'n gynnes y gaeaf hwn' yn hydref 2007, ac yna sioeau teithiol pellach.

# Pennod Tri – Cyfyngiadau Nofio Am Ddim

## Cyflwyniad

Fel a ddangosir ym Mhennod 2, ceir tystiolaeth gref bod y MNADD wedi cynyddu cyfranogiad. Mae mwy na hanner plant Cymru rhwng 10 a 14 oed wedi cymryd rhan mewn sesiynau nofio am ddim ac mae wedi profi'n arbennig o boblogaidd ymhlith y rhai 11 i 13 oed, gyda mwy na dwy ran o dair o'r grŵp oedran hwn yn mynychu sesiynau. Er hynny, nid yw cyfran arwyddocaol o'r blant, na'r mwyafrif o'r grŵp oedran 60+, wedi manteisio ar y MNADD. Mae'r Bennod hon yn edrych ar y rhesymau dros hyn a'r goblygiadau ar gyfer marchnata a hyrwyddo'r fenter.

## Rhesymau dros Beidio â Chymryd Rhan

### Diffyg Cyfranogiad gan Blant a Phobl Ieuainc

Canfu arolwg 2006 ar ddisgyblion blwyddyn 8 a blwyddyn 10 nad oedd 42% o'r ymatebwyr wedi cymryd rhan yn y MNADD yn ystod y flwyddyn flaenorol. Roedd y diffyg cymryd rhan yn uwch ymhlith disgyblion blwyddyn 10 (53%) na rhai blwyddyn 8 (30%). Y prif reswm a gofnodwyd dros ddiffyg cyfranogiad gan y ddau grŵp oedd diffyg ymwybyddiaeth (42%), diffyg diddordeb mewn nofio (20%) a neb yn gwmni (18%).

Mae data o arolwg CChC ar blant 7-11 oed wedi datgelu patrwm tebyg (CChC 2006). Canfu nad oedd 53% o'r rhai a gyfwelwyd wedi cymryd rhan a gyda'n harolwg ni, y prif reswm a nodwyd ganddynt am hynny oedd nad oeddent yn ymwybodol o'r MNADD (Tabl 6). Dywedodd bron i un rhan o bump nad oeddent wedi mynychu am nad oedd ganddynt neb yn gwmni. Gyda'i gilydd, mae'r darganfyddiadau hyn yn tynnu sylw at bwysigrwydd creu ymwybyddiaeth o nofio am ddim ymhlith plant ac oedolion (rhieni, gwarcheidwaid a brodyr a chwiorydd hŷn) y mae plant iau'n dibynnu arnynt i'w hebrwng i'r pwll a'u goruchwylio ynddo.

Tabl 6: Diffyg Cyfranogiad yn Nofio Am Ddim gan Blant 7-11 Oed (Pasg 2006)

Y rheswm a nodwyd	%
Doeddwn i ddim yn gwybod am y fenter	56
Doedd gen i neb yn gwmni	19
Dydwn i ddim yn mwynhau ymweld â'r pwll	5
Dydwn i ddim yn gallu nofio	9
Dim digon o amser / rhy brysur	4
Rhieni rhy brysur / neb i'm danfon	1
Ar wyliau / yn rhywle arall	3
Rhy bell / methu cyrraedd y lleoliad	1
Ddim eisiau	1

Ffynhonnell: CChC 2006

Sylwer – Roedd yr ymatebwyr yn cael dewis mwy nag 1 ateb aml-ddewis

### Diffyg Cyfranogiad gan Bobl 60+ Oed

Fel a ddisgrifiwyd ym Mhennod 2 uchod, mae'r lefel cymryd rhan ymhlith y boblogaeth 60+ wedi bod yn llawer is nag ymhlith y plant, ond mae wedi cynyddu'n raddol dros amser. Dateglodd yr arolwg ar ddefnyddwyr 60+ oed, a gynhaliwyd yn 2005, bod 21% o'r cyfranogwyr wedi dechrau nofio o ganlyniad i'r fenter.

Mae data CChC yn dangos bod lefel y cyfranogiad cyffredinol mewn nofio (nid dim ond nofio am ddim) ymhlith y rhai dros 15 oed yn 12%, ond ar gyfer y rhai dros 60 oed, mae'r ffigur yn haneru ac mae'r gyfran yn gostwng yn gynyddol gydag oedran (CChC 2005a). Mae'r data hefyd yn datgelu, ac mae hyn yn bwysig, bod lefel y galw cudd am nofio ymhlith pobl dros 60 oed yn isel (8%). Mae'r rhesymau a fynegwyd dros beidio â chymryd rhan yn wahanol i'r rhai a fynegwyd gan blant (Tabl 7).

**Tabl 7: Y Rhesymau a Nodwyd gan Oedolion 60+ Oed (Cyfranogwyr a'r Rhai Heb Gymryd Rhan) a Fynegodd Ddiddordeb mewn Nofio neu Nofio'n Amlach**

Y Rheswm a Nodwyd	% (n=474)
Ddim digon heini	23
Dim digon o amser	20
Diffyg cyfleusterau / clybiau yn yr ardal	17
Heb fynd ati i wneud unrhyw beth am y peth eto	12
Ymrwymadau teuluol	10
Rhy bell / anodd teithio i gyfleusterau/ clwb	4
Rhy hen	4
Dim digon o hyder	3
Costio gormod	3
Gormod o ymdrech / dim amynedd	2
Clybiau ddim yn darparu i'm lefel i	1
Rhy brysur yn y gwaith	1
Gwell gennyf wneud pethau eraill	1
Ddim yn dda mewn chwaraeon	0

Dangosodd tystiolaeth o werthusiad o Astudiaeth Achos o'r cynllun 60+ yn cael ei weithredu ym Mlaenau Gwent mai'r prif resymau dros ddiffyg cyfranogiad mewn nofio am ddim oedd: diffyg diddordeb mewn nofio; diffyg sgiliau (oherwydd salwch, anabled, anallu i nofio); diffyg ymwybyddiaeth o'r cynllun a diffyg cludiant (gweler Astudiaeth Achos 13).

### ASTUDIAETH ACHOS 13


#### Problemau gyda Chynnwys Pobl 60+ Oed, Blaenau Gwent

Tynnodd gwaith ymchwil mewn Astudiaeth Achos ym Mlaenau Gwent (y Pedwerydd Adroddiad Interim) sylw at y problemau cysylltiedig â chynnwys pobl hŷn. Datgelodd y bobl hŷn a oedd yn cymryd rhan yn yr ymchwil mai'r rpfif rwystrau'n atal cyfranogiad mewn nofio am ddim 60+ oedd diffyg ymwybyddiaeth o'r MNADd (nid oedd tri chwarter yr ymatebwyr nad oeddent yn cymryd rhan yn ymwybodol ohoni), anallu i nofio (55% ddim yn gallu) a diffyg diddordeb mewn nofio fel gweithgaredd.

Ystyrid cludiant a lleoliad y ganolfan chwaraeon fel problem i lawer o bobl hŷn hefyd, er eu bod yn ystyried cymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgarwch corfforol. Er nad oedd y rhai nad oeddent yn cymryd rhan wedi ymweld â'r ganolfan hamdden lwyddiannus newydd yn Abertileri, dywedodd pob un ohonynt eu bod yn cymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden cymdeithasol ac egniol yn rheolaidd (er bod nifer ohonynt wedi'u cyfyngu oherwydd eu hiechyd).

I grynhof, datgelodd yr ymchwil a wnaed bod y rhan fwyaf o bobl 60+ oed yn rhanedig rhwng bod ar un llaw yn y categori 'methu ac anfodlon (45%)' ac ar y llaw arall, 'abl ond anfodlon (35%)' i gymryd rhan mewn nofio am ddim (fel a welir isod). Ceir sawl rhwystr ac amheuan personol, ar wahân i gost, sy'n effeithio ar gyfranogiad. Mae'r darganfyddiadau'n herio a fyddai modd denu niferoedd mawr o gyfranogwyr newydd 60+ oed at nofio, ond hefyd bod raid i ddarparwyr herio eu dull o weithredu os am ddenu cyfranogwyr newydd i fanteisio ar eu hawl am ddim.

#### Pobl hŷn a Nofio Am Ddim – teipoleg ymddygiad



Addaswyd o Adams & West, 2006



## Hawl i Nofio Am Ddim

Diben creu'r MNADd oedd fel cynllun peilot i weld a fyddai darparu hawl i nofio am ddim yn annog pobl i gymryd rhan mewn mwy o ymarfer corff. Roedd llawer o swyddogion yr awdurdodau lleol a gyfwelwyd gennym (yn arbennig y prif swyddogion) yn amheus o werth rhoi hawl i nofio am ddim yn gyffredinol. Roeddent yn credu bod nofio am ddim ar gyfer y grŵp 60+ wedi cynyddu amlledd y sesiynau nofio y cymerai'r cyfranogwyr a oedd yn nofio eisoes ran ynddynt, heb ddenu cyfranogwyr newydd. Fel y dywedodd un prif swyddog a gyfwelwyd:

*"Yr unig faes lle mae 60+ wedi gweithio mewn gwirionedd yw aerobics dŵr. Mae'n sesiwn fel yna ... fel arall yr un nofwyr ydyn nhw. Dydw i ddim yn meddwl ein bod ni wedi denu fawr ddim nofwyr newydd. Dim ond £1.10 oeddem ni'n ei godi am nofio cynt ac os siaradwch chi gyda'r rhan fwyaf o bobl, doedd hynny ddim yn rhwystr."*

Mae data CChC hefyd yn awgrymu nad yw'r rhan fwyaf o bobl yn gweld cost nofio fel rhwystr (Tabl 7). Serch hynny, roedd rheolwyr y canolfannau'n gweld cynnydd yn amlledd y nofio ymhlith y grŵp oedran hwn fel cyflawniad. Dywedodd ychydig dan ddwy ran o dair mai hon oedd yr agwedd fwyaf llwyddiannus ar y cynllun 60+.

Roedd cost yn cael ei chydnabod fel mater pwysicach i'r cynllun 16 oed ac iau (yn enwedig gan rai grwpiau anodd eu cyrraedd, yn cynnwys oedolion a theuluoedd). Dangosodd yr arolwg yn 2006 ar ddisgyblion blwyddyn 8 a blwyddyn 10 bod eu tri chwarter wedi ymateb yn bositif i'r cysyniad o weithgarwch 'am ddim' a'i fod wedi eu hannog i gymryd rhan yn amlach. Roedd disgyblion blwyddyn 10 yn fwy sensitif i'r mater hwn a dywedodd 80% ohonynt y byddent yn nofio'n llai aml, neu'n rhoi'r gorau iddi'n llwyr, pe bai raid iddynt dalu. Ond nid dim ond cost oedd yn peri rhwystr, yn arbennig ar gyfer y rhai o deuluoedd ar incwm is, nad oeddynt wedi cael cyfle digonol i ddysgu nofio. Fel y dywedodd un swyddog datblygu chwaraeon wrthym ni:

*"I lawer o blant, yr unig gyfle maent yn ei gael i ddysgu nofio yn fy awdurdod i yw drwy gyfrwng yr ysgol oherwydd ni all y rhieni ei fforddio ac mae gan fy awdurdod i lawer o ardaloedd difreintiedig. Byddai hynny'n uchafswm o ddwy wythnos mewn blwyddyn a dydi hynny'n dda i ddim. Felly, dydyn nhw ddim yn gallu nofio, dydyn nhw ddim yn gallu gwneud defnydd o nofio am ddim, dydyn nhw ddim yn gallu cymryd rhan yn y sesiynau strwythuredig, dydi'r teuluoedd ddim yn mynd â hwy oherwydd eu bod o ardaloedd difreintiedig a ddim yn gwneud hyn..."*

Ond, fel a nodwyd uchod, ceir tystiolaeth bod rhai oedolion yn dewis osgoi'r sesiynau nofio am ddim am ei bod yn well ganddynt dalu i'w plant gael nofio er mwyn osgoi'r hyn a ystyrir ganddynt fel cyfnodau prysurach,

mwy swnllyd pan mae'n cael ei gynnig am ddim yn gyffredinol i'r holl blant 16 oed ac iau.

## Hygyrchedd y Pyllau

Datgelodd tystiolaeth o'r arolygon ar bobl ieuainc (2005 a 2006) a'r arolwg ar y rhai 60+ (2005) bwysigrwydd bod yn agos at bwl fel ffactor yn dylanwadu ar gyfranogiad. Dangosodd yr arolwg ar bobl ieuainc raniad rhwng y rhai'n cerdded i'r pwl a'r rhai'n ymweld â'r pwl gan ddefnyddio car. Pwysleisiodd rhai swyddogion y pwynt hwn yn ystod cyfweiliadau, gan awgrymu bod y boblogaeth wledig yn arbennig yn cael anawsterau gyda chyrraedd pyllau.

Mae rhai awdurdodau wedi darparu cludiant, ond dim ond yn achlysurol ac mae wedi arwain at ganlyniadau cymysg. Darparodd un awdurdod lleol yng Ngogledd Cymru (Gwynedd) fysis am ddim i ddechrau ar gyfer plant yn ystod gwyliau'r haf, ond roedd y defnydd ohonynt yn araf yn cydio ac felly daeth y gwasanaeth i ben. Serch hynny, ceir rhai enghreifftiau da mewn awdurdodau eraill gyda chludiant wedi bod yn rhwystr i gymunedau lleol a ddymunai wneud defnydd o'r cynllun 60+ – gweler Astudiaeth Achos 14. Drwy roi sylw i'r mater hwn, mae cwsmeriaid newydd wedi'u denu i fanteisio ar nofio am ddim. Fodd bynnag, roedd llai nag un o bob pedwar ymatebydd yn arolwg 2006 ar y rheolwyr yn credu y byddai darparu cludiant am ddim o gymorth i'r MNADd.

### ASTUDIAETH ACHOS 14

#### Cymdeithas Drochi'r Gurnos, Merthyr Tudful

Wedi cau pwl cymunedol ym Merthyr yn 2005, ceisiodd partneriaeth dan arweiniad rheolwr y cyfleuster ac yn cynnwys Ymddiriedolaeth Ddatblygu 3G, y Cynllun Dysgu yn y Gymdogaeth a Chyngor Merthyr Tudful ffordd amgen o gynnig nofio am ddim i bobl hŷn. Gan ddefnyddio cyllid y MNADd, darparwyd cludiant ar gyfer y bobl hŷn oedd yn byw ar Stad y Gurnos i ac o Ganolfan Gymunedol Aberfan a Bro Merthyr.

Dim ond yn ystod yr amser nofio cyhoeddus y defnyddiai'r grŵp y pwl yn wreiddiol, ond er mwyn annog diddordeb, mae wedi cael ei ehangu i gynnwys sesiwn Cadw'n Heini yn y Dŵr cyn y nofio cyhoeddus, ac yna paned yn y caffi. Mae rhwng 25 a 40 o unigolion yn mynychu pob sesiwn yn rheolaidd.

Yn ddiweddar, mae'r grŵp wedi cael enw ffurfiol, sef Cymdeithas Drochi'r Gurnos, a chyda cymorth gan ffynonellau cyllido cymunedol, mae'n hunanariannu'r cludiant yn awr.

Mae mater arall yn berthnasol i hygyrchedd ac yn arbennig o berthnasol i'r cynllun 60+, sef argaeledd y pwl. Mae'r argaeledd wedi'i gyfyngu'n aml oherwydd

defnyddir pyllau ar gyfer sesiynau nofio i ysgolion ar ddyddiau wythnos yn ystod y tymor. O ganlyniad, cyfyngir nofio am ddim i foreau cynnar, amseroedd cinio a chymysgu nosau. Serch hynny, fel a nodwyd uchod, gwelwyd rhyw faint o gynnydd gyda rhoi sylw i'r mater hwn, ond mae'n her o hyd i lawer o byllau, yn arbennig y rhai cysylltiedig â chytundebau addysgol a / neu safleoedd ysgol. Mae hyn wedi arwain at farn ymhlith y boblogaeth 60+ oed bod y cyfleoedd i gymryd rhan yn gyfyngedig ac ar adegau anghymdeithasol, o ystyried eu hoedran a'u ffordd o fyw. Fel yr eglurodd un prif swyddog wrthym:

*"Y broblem sydd gennym gyda thwf yn y cynllun 60+ yw defnydd yn ystod y diwrnod ysgol. Mae tri o'n pyllau ar safleoedd defnydd deuol ac mae eu defnyddio yn ystod y diwrnod ysgol yn heriol. Mae llywodraethwyr yr ysgol yn ystyried yr ysgol a'r ganolfan hamdden a phopeth arall fel eu heiddo hwy yn ystod y cyfnod hwnnw ac mae'n anodd iawn trefnu mynediad ... Pe baem yn gallu cael rhyw faint o sesiynau yn ystod y bore, rydym yn credu y byddai hynny'n gwneud gwahaniaeth. Rydym wedi ceisio darbwyllo'r ysgolion o hyn, ond nid ydym yn cael llawer o ymateb."*

## Dewis Nofio fel Gweithgaredd

Nid yw nofio fel gweithgaredd yn apelio at bawb. Felly, o ddileu pob rhwystr, ni fyddai rhai sy'n gymwys i sicrhau mynediad am ddim yn dewis nofio wedyn.

I rai, mae nofio ar hyd a lled y pwll yn ddiffas. Mae'r arolwg ar reolwyr y canolfannau hamdden yn datgelu cyfranogiad isel yn Fit Swim (Her CNAC gynt), pecyn hunanasesu a gynlluniwyd gan CNAC ar gyfer pob oedran, i annog nofio ar hyd y pwll a gwella amseroedd a phellteroedd.

Dynododd y cyfweiliadau gyda'r awdurdodau ddiffyg diddordeb ymhlith clybiau nofio wrth gymryd rhan yn y MNADd a denu cyfranogwyr i sesiynau clwb. Dangoswyd hyn gan brofiad yr Ŵyl Ddŵr Genedlaethol. Un o'i hamcanion oedd ffurfio cyswllt rhwng y rhaglen haf o nofio am ddim a'r clybiau lleol, ond dangosodd adolygiad o'r Ŵyl yn 2005 ei bod yn dibynnu'n helaeth ar blant a oedd eisoes yn rhan o'r system glwb (ac eithrio polo dŵr). O safbwynt Llywodraeth y Cynulliad, mae hyn wedi cael ei ystyried yn wendid ac yn siom. Roedd y swyddogion wedi rhagweld y byddai gwell perthynas yn bodlo'i rhwng yr awdurdod lleol, y corff rheoli a'r strwythur clwb lleol. Yn gyffredinol, nid yw'r clybiau nofio lleol wedi gweithio gyda nofio am ddim a dim ond rhai achosion o bartneriaethau a gafwyd, er bod arwyddion o newid i'w gweld, er enghraifft, yng Nghaerfyrddin, lle mae swyddog datblygu'n gyfrifol am weithio gyda a datblygu nofio clwb.

Mae'r cynllun 60+ wedi wynebu her debyg. Mae arolwg bob dwy flynedd CChC ar oedolion wedi dangos galw isel am nofio ymhlith y boblogaeth hŷn (8%) a phresenoldeb

isel (dim ond 17% o'r oedolion) mewn canolfannau hamdden lleol. Er gwaethaf manteision amlwg nofio i bobl hŷn (Lawton et al 1995), mae llawer o bobl yn ei chael yn anodd i hoffi'r ymarfer a byddai'n well ganddynt fwynhau cyfleoedd chwaraeon a hamdden sych, fel a nodwyd yn yr arolwg ar y defnyddwyr 60+ yn 2005. Nid yw nifer fawr yn y grŵp oedran hwn yn gallu nofio ac maent yn teimlo eu bod yn rhy hen i ddysgu. Roedd un prif swyddog yn eithriadol ymwybodol o'r rhwystrau cysylltiedig â'r cynllun 60+ gan nodi:

*"Fe allaf weld pam ei fod (y Gweinidog) wedi ceisio gwthio am nofio ar gyfer pobl 60+ oherwydd mae'n ymarfer diogel ac yn creu llai o straen na rhoi cynnig ar chwarae sboncen neu rywbeth tebyg am y tro cyntaf yn eu bywyd. Ond mae angen mwy o ymdrech, yn ganolog ac yn lleol, a bydd hynny'n cynnwys defnyddio adnoddau, a chwalu'r camsyniadau sydd gan bobl am sut fyddai nofio iddynt hwy ... o fynd yn ôl 35 o flynyddoedd i'r hyn roedd nofio iddynt hwy bryd hynny, mae'n anodd meddwl am y peth a dweud y gwir."*

Ceir hefyd faterion perthnasol i ddelwedd y corff, cynllun y cyfleusterau newid, sy'n gofyn am rannu gyda phobl ieuainc yn aml (yn enwedig y rhai gyda llawer o ddefnydd gan ysgolion yn ystod y dydd) a hygyrchedd cyfleusterau. Arenwyd y materion hyn yn ymchwil Blaenau Gwent (gweler Astudiaeth Achos 13), gyda nifer o'r rhai a gyfwelwyd yn anymwybodol o fodolaeth pwll newydd yn Abertillery a ddim yn gwybod am nofio am ddim i bobl dros 60 oed.

## Marchnata a Hyrwyddo

Mae cyllideb y MNADd wedi cynnwys swm ar gyfer marchnata a brandio cenedlaethol ers y dechrau ar gyfer y MNADd ac er bod y data'n dangos ymwybyddiaeth uchel yn gyffredinol ymhlith y grŵp oedran 16 oed ac iau, mae'r dystiolaeth yn awgrymu mai dim ond cyfyngedig fu effaith y gwaith o farchnata'r MNADd.

Fel a nodwyd uchod, mae data CChC a'n harolygon ni ein hunain yn dangos bod cyfran sylweddol o blant o hyd yn anymwybodol o'r fenter. Canfu'r arolwg ar bobl ieuainc nad oedd 42% o'r ymatebwyr yn cymryd rhan oherwydd diffyg ymwybyddiaeth. Yn fwy na hynny, roedd mwy na thraean o'r rhai a oedd wedi cymryd rhan (31%) wedi clywed am y fenter ar ddamwain wrth ymweld â'r pwll i nofio, a 31% pellach wedi cael clywed gan ffrindiau. Llai nag un rhan o bump (dim ond 18%) ddywedodd eu bod wedi dod yn ymwybodol o nofio am ddim drwy gyfrwng y deunydd hyrwyddo.

Tynnwyd sylw yn y cyfweiliadau gyda'r awdurdodau lleol at amheuan ynghylch y ffaith nad oedd y brandio ar gyfer y cynllun 16 oed ac iau yn addas ar gyfer plant hŷn. Ond dynododd yr arolwg ar reolwyr y canolfannau hamdden bod gwaith marchnata lleol wedi'i wneud a bod rhai awdurdodau lleol wedi bod yn arbennig

o lwyddiannus wrth dynnu sylw at y MNADd, gan ddefnyddio masgot mewn sawl ardal (er enghraifft, Huw Hwyaden yng Ngwynedd ac Owain Octopws yng Nghonwy) yn mynychu lleoliadau cyhoeddus ac yn hybu'r MNADd. Hefyd, mae Gwynedd wedi datblygu rhaglen amrywiol i farchnata'r cynllun a thynnir sylw at eu rhaglen yn Astudiaeth Achos 15.

## ASTUDIAETH ACHOS 15

### Gwynedd – Marchnata

Rhwng Pasg 2006 a Sulgwyn 2007, cynhaliwyd taith hyrwyddo nofio am ddim o amgylch ysgolion cynradd y sir. Datblygwyd masgot hyrwyddo – Huw Hwyaden – gan ymweld ag ysgolion i ddarparu gwybodaeth am gyfleoedd nofio am ddim lleol, diogelwch yn y pwll a phwysigrwydd byw'n iach. Er mwyn cofnodi'r niferoedd newydd yn mynychu'r sesiynau nofio am ddim, rhoddwyd tocyn i'r plant i'w gyflwyno yn y pwll er mwyn cael sesiwn nofio.

Mae Gwynedd yn monitro'r presenoldeb yn y cynllun nofio am ddim drwy gyfrwng cerdyn nofio am ddim ac fel rhan o'r fenter hon, mae wedi cofnodi pa ysgol y mae pob plentyn yn ei mynychu. Mae hyn wedi galluogi i'r Cydlynnydd Nofio Am Ddim werthuso effeithiolrwydd taith hyrwyddo Huw Hwyaden ac arenwi'r ysgolion a'r ardaloedd sydd angen gwaith hyrwyddo pellach. Mae'r awdurdod wedi llwyddo i gadw cofnod o gyflawniad y cwricwlwm cenedlaethol mewn nofio am ddim a lefelau cyfranogiad yr ysgolion unigol.

Mae taith hyrwyddo Huw Hwyaden wedi annog mwy na 1500 o blant ychwanegol i gymryd rhan mewn nofio am ddim yn yr awdurdod lleol. Rhwng 2005-06 a 2006-07, gwelwyd cynnydd o 22% yn y nifer yn mynychu trochi rhydd ymhlith y grŵp oedran 16 oed ac iau a chynnydd o 47% yng nghyfanswm y nifer yn mynychu nofio am ddim (trochi rhydd a gweithgareddau strwythuredig).

Fodd bynnag, ychydig iawn o farchnata llwyddiannus a wnaed gyda'r cynllun 60+. Dim ond 5% o Reolwyr y Canolfannau ddynododd eu bod wedi ymgymryd â mentrau marchnata penodol ar gyfer y grŵp oedran 60+ (y Pumed Adroddiad Interim).

Tynnwyd sylw hefyd gan y rhai a gyfwelwyd at ddiffyg marchnata cenedlaethol ar gyfer y cynllun 60+ a diffyg cysondeb ac amlledd o ran y cylchlythyrau a gynhyrchir a'r gweithgareddau hyrwyddo eraill, a oedd yn broblemus. Nid oeddent yn sicr pryd oedd cyhoeddiadau'n mynd i weld golau dydd a'r argraff gyffredinol a gafwyd o'r marchanta cenedlaethol oedd pwyslais diangen ar lunio baneri a phosteri bws yn arwain at y cyfnod nofio am ddim dros wyliau'r haf.

## Gwerth am Arian

Mae barnu gwerth am arian y MNADd y tu hwnt i sgôp ein gwerthusiad ni. Fodd bynnag, mae'n fater pwysig sy'n haeddu mwy o sylw yn y dyfodol.

Byddai'n anodd sefydlu cost y MNADd am bob sesiwn nofio, oherwydd diffyg data dilys gan ddefnyddwyr ar gyfer y blynyddoedd cynnar. Yn fwy na hynny, hyd yn oed pe bai modd sicrhau ffigwr cyffredinol, ni fyddai'n fesur da o effeithiolrwydd am ddau reswm. I ddechrau, mae nofio strwythuredig yn costio mwy na nofio di-strwythur, ond mae'n fwy tebygol o sicrhau cynnydd cynaladwy mewn cymryd rhan. Yn ail, mae sicrhau cyfranogiad ymhlith grwpiau 'anodd eu cyrraedd' yn debygol o fod yn ddrytach ond fe all fod yn well gwerth am arian o ran cyflawni rhai o nodau Llywodraeth y Cynulliad mewn perthynas â strategaeth Dringo'n Uwch a sicrhau cyfiawnder cymdeithasol. Mae'r materion hyn yn bwysig iawn os yw nofio am ddim i gael ei ymestyn y tu hwnt i'r cyfnod peilot. Bydd yn bwysig i Lywodraeth y Cynulliad, CChC ac awdurdodau lleol gasglu data dibynadwy am y defnyddwyr, yn ystyried nifer ac ansawdd y sesiynau nofio am ddim. Byddai hyn wedyn yn sicrhau gwell unioni rhwng y canlyniadau a'r taliadau i awdurdodau a phyllau.



# Pennod Pedwar – Rheoli Nofio Am Ddim

## Cyflwyniad

Fel a ddisgrifiwyd ym Mhennod 1, diben y gwerthusiad o'r MNADD oedd dadansoddi dau fater: ei heffaith ar gynyddu cyfranogiad a'r ffordd y mae wedi cael ei rheoli a'i gweithredu ar lefel genedlaethol a lleol. Canolbwyntiodd Pennod 2 ar effaith y fenter ac mae Pennod 3 wedi arenwi rhai o'i chyfyngiadau. Mae'r Bennod hon yn cyflwyno'r darganfyddiadau allweddol cysylltiedig â rheoli'r MNADD. Mae hyn yn bwysig am ddau reswm. I ddechrau, mae'n tynnu sylw at sut gellid gwella'r dull o reoli nofio am ddim yn y dyfodol. Yn ail, efallai y gall Llywodraeth y Cynulliad ac awdurdodau lleol ddysgu gwersi defnyddiol ar gyfer cynllunio, rheoli a gweithredu mentrau eraill yn y dyfodol.

I ddechrau, mae'r Bennod yn cyflwyno'r darganfyddiadau allweddol mewn perthynas â gweithredu'r MNADD yn genedlaethol. Wedyn, mae'n canolbwyntio ar weithredu'r MNADD yn lleol mewn awdurdodau lleol a chan reolwyr canolfannau.

## Gweithredu Cenedlaethol

### Cyfarwyddyd Polisi ar gyfer Nofio Am Ddim a'i Gysylltiadau â Dringo'n Uwch

Mae'r cyfarwyddyd polisi a sefydlwyd gan Lywodraeth y Cynulliad yn datgan y ddarpariaeth leiafswm sy'n ofynnol ym mhob awdurdod lleol a'r meini prawf eilradd a oedd yn galw am raglenni strwythuredig a tharged a chasglu data. Amlinellwyd manylion y meini prawf ym Mhennod 1 ac o'r dechrau, pwysleisiodd Llywodraeth y Cynulliad bod raid sicrhau cydbwysedd rhwng sesiynau nofio am ddim di-strwythur a strwythuredig.

Er yn berthnasol i'r ddau gynllun, mae hwn wedi bod yn bwyslais penodol ar yr angen am nofio strwythuredig ar gyfer y cynllun 16 oed ac iau. Roedd y cyfarwyddyd polisi a gafodd ei gyhoeddi yn 2004 yn datgan mai "yr uchelgais yw gwneud yr hawl i nofio am ddim yn sylfaen ar gyfer perthynas newydd ac adeiladol gyda phlant a phobl ieuainc yng Nghymru sy'n methu os yw'n bwrw ymlaen yn syml ar sail 'trochi rhydd' yn y pwll lleol." Aeth y cyfarwyddyd polisi yn 2006-07 ymhellach gan ddatgan, "Wedi gwerthusiad y cwsmeriaid o'r MNADD, mae pawb cysylltiedig â'r fenter yn **dymuno annog gwell cyfran o weithgarwch strwythuredig** (pwyslais yn y gwreiddiol)."

Cymeradwywyd y cyfarwyddyd polisi yn flynyddol mewn cyfarfod o'r PSH ac ymgynghorodd Llywodraeth y Cynulliad â'r grŵp hwn ynghylch y newidiadau polisi arfaethedig a'r fformiwlâu cyllido. Er gwaetha'r broses hon o wneud penderfyniadau ar y cyd, mae Llywodraeth y Cynulliad wedi ei chael yn anodd i gysylltu â 22 o wahanol bartneriaid. Er bod rhai awdurdodau lleol wedi dadlau dros fwy o hyblygrwydd, mae eraill wedi gofyn am fwy o gyfarwyddiadau. Cafodd y mater hwn ei grynhoi'n daclus iawn gan un swyddog yn ystod y cyfweiliadau gwerthuso:

*"Mae'r cyfarwyddyd polisi'n ymwneud â darpariaeth leiafswm ... Fe allech chi wneud awr o sesiynau strwythuredig bob wythnos a chymryd eich holl gyllid nofio am ddim. Pe baech yn frwd ac eisiau gwneud hynny, fe allech chi gynnig deg awr o sesiynau strwythuredig yr wythnos am yr un faint o arian."*

Gwelwyd achlysuron eraill ble mae materion perthnasol i awdurdod arbennig neu glystyrau bychain o awdurdodau (er enghraifft, defnydd tros ffiniau yng Nghymru, defnydd tros ffiniau gan bobl o'r tu allan i Gymru, cyfranogiad gan byllau heb eu rheoli gan awdurdodau lleol a chyflwyno cerdyn hamdden) wedi bod yn anodd i'w datrys er boddhad yr holl awdurdodau ac nid yw Llywodraeth y Cynulliad wedi darparu'r cyfarwyddyd yr oedd rhai cynghorau ei eisiau.

Rhoddodd lansio strategaeth 20 mlynedd ar gyfer chwaraeon a gweithgarwch corfforol, 'Dringo'n Uwch, Cymru' (LICC 2005), hwb pellach i'r MNADD. Roedd yn cael ei hystyried fel 'prosiect blaengar' gyda LICC yn buddsoddi cyfanswm o bron i £15 miliwn rhwng 2003-04 a 2006-07. Fodd bynnag, mae'r cyfweiliadau a gynhaliwyd gydag awdurdodau lleol yn 2005 a 2006 wedi tynnu sylw at bryderon ynghylch a yw'r MNADD ar ei ffurf bresennol yn mynd i allu gwneud cyfraniad sylweddol at ddau amcan cyffredinol 'Dringo'n Uwch', sef:

- Cynyddu gweithgarwch corfforol ymhlith plant (60 munud o weithgarwch corfforol bum gwaith yr wythnos)
- Cynyddu gweithgarwch corfforol ymhlith oedolion (30 munud o weithgarwch corfforol cymedrol ddwys bum gwaith yr wythnos).

Mynegwyd tair prif gyfres o bryderon i ni.

I ddechrau, mae'r MNADD yn berthnasol i ieuencid 16 oed ac iau yn ystod gwyliau'r ysgol yn unig ac (mewn theori o leiaf) i'r rhai 60+ y tu allan i gyfnodau gwyliau'r ysgol yn unig. Efallai nad yw hyn yn annog ymarfer rheolaidd, drwy gydol y flwyddyn (er, yn ymarferol, fel a nodwyd uchod, mae 20 allan o'r 22 o awdurdodau lleol wedi ymestyn y nofio am ddim ar gyfer y rhai 60+ fel ei fod yn cynnwys gwyliau'r ysgol hefyd yn awr).

Yn ail, roedd y rhai a gyfwelwyd o'r awdurdodau lleol yn cwestiynu'n aml y ffocws ar y boblogaeth 60+, gan dynnu sylw at y ffaith bod polisïau a mentrau eraill gan Lywodraeth y Cynulliad wedi'u cyfeirio at y rhai dros 50 oed.

Yn drydydd, mynegodd y cyfranwyr a'r rhai a gyfwelwyd o'r awdurdodau lleol amheuaeth ynghylch effeithiolrwydd pwysleisio nofio ar draul ffurfiau eraill o chwaraeon dŵr a gweithgareddau sych. Credai'r rhai a gyfwelwyd (yn cynnwys defnyddwyr a darparwyr) y gallai cyfranogiad cynyddol mewn nofio gyfrannu at gyrraedd targedau Dringo'n Uwch, ond am na fydd byth yn apelio at y boblogaeth yn gyffredinol, roedd cyfyngiadau'n bodoli. Er bod y cyfarwyddyd polisi a'r meini prawf cyllido'n cydnabod hyn, ceir sgôp i roi sylw manylach iddo drwy ddatblygu strategaethau ehangach (yn cynnwys gweithgareddau sych) a fydd yn cyrraedd targedau Dringo'n Uwch drwy gyrraedd cynulleidfaoedd ehangach.

### **Llywodraeth y Cynulliad, Awdurdodau Lleol a Phartneriaid Cenedlaethol Eraill**

Seiliwyd y gwaith o weithredu'r MNADD i ddechrau ar bartneriaeth rhwng Llywodraeth y Cynulliad ac awdurdodau lleol. Roedd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru'n gysylltiedig ar y dechrau, yn enwedig mewn perthynas â phennu'r fformiwla cyllido.

Mae'r MNADD wedi llwyddo i sicrhau cyfranogiad gan y 22 awdurdod lleol yng Nghymru a'r holl byllau cyhoeddus. Mae hwn yn gyflawniad sylweddol sy'n gwneud y fenter yn unigryw yng Ngorllewin Ewrop. Y nod ar y dechrau oedd sicrhau cefnogaeth 'Cymru gyfan' i'r fenter gweithgarwch corfforol flaengar hon. Croesawodd y rhan fwyaf o'r awdurdodau lleol y cyllid ychwanegol cysylltiedig â'r MNADD ac er bod y fformiwla'n creu 'enillwyr' a 'chollwyr', cytunodd pawb i gymryd rhan. Meddai un prif swyddog a gyfwelwyd gan y tîm gwerthuso:

*"Fe fyddwn i'n dweud bod dod â 22 o awdurdodau at ei gilydd i gyflawni rhywbeth sy'n eithaf cyson ledled Cymru gyfan yn gryn gyflawniad ... ac er nad oeddem yn teimlo y byddai'r grant yn talu'r costau ychwanegol ... roeddem yn teimlo'n gyffredinol ei bod yn well mynd gyda'r llif yn hytrach nag yn ei erbyn."*

Mae gweithredu menter mor uchelgeisiol wedi cyflwyno sawl her wrth reswm.

Roedd y cyfathrebu pennaf rhwng Uned Polisi Chwaraeon Llywodraeth y Cynulliad a'r PSH. Swyddogaeth y prif swyddogion oedd bod yn gyfrifol am sefydlu a chyflwyno'r MNADD yn yr holl leoliadau hamdden cyhoeddus ledled Cymru. Hefyd, roedd disgwyl i bob awdurdod lleol enwebu cydlynedd data a fyddai'n gyfrifol am ddarparu data ar gyfer Llywodraeth y Cynulliad. Ond roedd dryswch ynghylch ei swyddogaeth a'r dulliau cyfathrebu a dim ond cyswllt cyfyngedig a gafwyd gyda'r swyddogion hyn cyn i'r gwerthusiad ddechrau. O ganlyniad, roedd pob awdurdod wedi creu ei system fonitro ei hun. Cafodd y mater hwn sylw yn ystod 2005 drwy sefydlu fframwaith casglu data cyffredin ac yn 2006, pan adolygwyd y gwaith o gasglu data ymhellach. Gyda'i gilydd, tynnodd y datblygiadau hyn sylw at bwysigrwydd casglu a rheoli data. Mynegodd Llywodraeth y Cynulliad syndod ynghylch pa mor anodd yr oedd i brif swyddogion yng Nghymru gyfathrebu amcanion a nodau'r MNADD i'w cydweithwyr yn eu hawdurdodau.

Sefydlwyd Gweithgor y MNADD hefyd, dan gadeiryddiaeth Pennaeth y Polisi Chwaraeon ac yn cynnwys cynrychiolwyr o Lywodraeth y Cynulliad, awdurdodau lleol (gweithredol, datblygiadol a pholisi) a phartneriaid allweddol eraill, yn cynnwys Cymdeithas Nofio Amatur Cymru a Ffederasiwn Chwaraeon Anabledd Cymru. Wedi cyhoeddi ei Adroddiad Interim Cyntaf yn 2005, adolygwyd cyfansoddiad a chylch gorchwyl y grŵp hwn er mwyn darparu eglurhad gwell i'r rhai'n ymwneud â'r MNADD. Roedd hefyd yn gyfle i ddod â gwaith y Gweithgor yn nes at waith Grŵp Llywio'r Gwerthusiad, gyda'r olaf wedi'i sefydlu yn ystod haf 2004 gyda'r nod o oruchwylio'r broses werthuso ac ymchwilio. Wedi cyfarfod yn ystod mis Chwefror 2006, fodd bynnag, ni chafodd y Gweithgor ei ailymgynnull. Fis Mai 2007, cyfarfu grŵp gyda chyfansoddiad newydd gyda'r bwriad o gymryd lle'r Gweithgor a Grŵp Llywio'r Gwerthusiad.

Mae swyddogaeth CChC wedi bod yn amwys ac yn ddryslyd ar adegau wrth oruchwylio'r MNADD. Ar y dechrau, derbyniodd yr Adran Ymchwil a Gwerthuso gyfrifoldeb am werthuso'r MNADD, yn cynnwys cadeirio Grŵp Llywio'r Gwerthusiad, ac roedd y Cyfarwyddwr Cyfranogiad a Gweithgarwch Corfforol a Rheolwr Rhanbarthol y Cymunedau Egniol yn ymwneud rhyw faint â rhai o gyfarfodydd y Gweithgor. Hefyd, yn achlysurol, gofynnwyd i CChC oruchwylio'r gwaith o neilltuo cyllid ychwanegol i awdurdodau lleol.

Newidiodd y sefyllfa hon yn 2006 wedi adolygu'r trefniadau rheoli a gofynnwyd i CChC gefnogi'r gwaith o weithredu'r fenter (llythyr gorchwyl 2006-07 at CChC gan y Gweinidog ar gyfer Diwylliant, yr Iaith Gymraeg a Chwaraeon). Cyhoeddodd CChC Benawdau Cytundeb gyda'r holl awdurdodau lleol a chlymodd y MNADD yn agosach at 'Dringo'n Uwch.' Fel rhan o'i swyddogaeth, sefydlodd CChC amserlenni newydd ar gyfer cynlluniau cyflwyno, cyllid a gweinyddu'r gronfa wella (£1.5 miliwn

ychwanegol i awdurdodau lleol yn ystod 2006-07 i gyllido datblygiadau newydd). I gynorthwyo gyda hyn, penodwyd Cydlynnydd Nofio Am Ddim am ddwy flynedd. Roedd rhai prif swyddogion yn edifar am yr erydu a fu ar y berthynas uniongyrchol oedd ganddynt gynt â Llywodraeth y Cynulliad. Ond, wrth bwysu a mesur, mae'n ymddangos bod y gefnogaeth ychwanegol a gafwyd wedi bod o fudd i'r gwaith o reoli'r MNADD.

## Cyllid

Seilir y cyllid sydd ar gael ar gyfer gweithredu'r MNADD ar gymysgedd o gyllid craidd ar gyfer y ddau gynllun, a rhyw faint o gyllid cais ychwanegol yn 2004-05, 2005-06 a 2006-07. Fel a eglurwyd yn y Cyflwyniad, seilir y fformiwlâu cyllido'n bennaf ar boblogaeth ardal, gyda rhai ffactorau ychwanegol yn cael eu hystyried. Datgelodd cyfweiliadau a gynhaliwyd gyda phrif swyddogion yr awdurdodau lleol y farn ymhlith rhai bod y MNADD yn seiliedig ar fodel 'trefol' yn hytrach na 'gwledig', gan nad oes yr un o'r fformiwlâu yn rhoi ystyriaeth i ffactorau eraill, fel nifer y pyllau neu eu hygrychedd.

Tynnwyd sylw yn ein cyfweiliadau gyda phrif swyddogion yr awdurdodau lleol (yn 2005 a 2006) at dri phryder ynghylch cyllido:

- Gwelwyd rhyw faint o ansicrwydd ynghylch cyllid yn y dyfodol. Fel menter beilot, nid yw'r awdurdodau lleol wedi bod yn sicr ynghylch ei chyfeiriad tebygol yn y dyfodol (mater a godwyd gennym yn yr Ail Adroddiad Interim ac eto wedyn yn 2006) a pha un ai fydd y cyllid yn parhau. Mae hyn wedi cyfyngu ar allu llawer o awdurdodau i gynllunio ymlaen yn effeithiol.
- Mae'r fformiwlâu cyllido'n cael eu hystyried yn fwy a mwy amhriodol. Fe wnaethant ateb eu pwrpas ar y dechrau, ond teimlir eu bod yn rhagfarnllyd o blaid yr ardaloedd trefol gyda phoblogaethau cymharol fawr, a'u bod yn methu caniatáu ar gyfer nifer y pyllau mewn ardal. Nid yw'r taliadau'n gysylltiedig chwaith â pherfformiad o ran cynyddu cyfranogiad, cyrraedd grwpiau difreintiedig neu ddarparu sesiynau strwythuredig.
- Er bod awdurdodau lleol wedi cael eu hannog i ddatblygu a hyrwyddo'r MNADD flwyddyn ar ôl blwyddyn, mae'r cyllid craidd wedi aros yr un fath (mewn gwir dermau) drwy gydol cyfnod y cynllun peilot. Soniodd y prif swyddogion a rheolwyr y canolfannau am nifer o gostau rhedeg ychwanegol (yn cynnwys chwyddiant, prisiau cyfleustodau'n cynyddu, defnydd cynyddol yn effeithio ar draul) y mae'r awdurdodau wedi gorfod eu talu. Er bod yr holl brif swyddogion yn ei chael yn anos o hyd i gyllido nofio am ddim, ymddangosai'r problemau'n waeth yn yr awdurdodau gwledig a'r rhai gyda phyllau a reolir yn wirfoddol a chan ymddiriedolaethau.

## Gweithredu Lleol

### Gweithredu gan Awdurdodau Lleol

O'r dechrau, mae'r MNADD wedi cynnwys y 22 awdurdod lleol ac maent wedi bod yn gyfrifol am ddarparu nofio am ddim mewn oddeutu 120 o byllau nofio cyhoeddus ledled Cymru. Mae'r amserlen dynn ar gyfer gweithredu nofio am ddim wedi cael effaith ar allu awdurdodau lleol i ymateb yn bositif ac, mewn rhai achosion, i fod yn broactif.

O ran gweithredu'r cyfarwyddyd polisi, ceir tystiolaeth bod y rhan fwyaf o'r awdurdodau lleol wedi bodloni'r ddarpariaeth leiafswm a nodwyd a bod rhai wedi rhagori arni (o ddadansoddi cynlluniau cyflwyno a ffurflenni data'r awdurdodau lleol), er bod faint o nofio am ddim a ddarparwyd wedi amrywio'n sylweddol o ardal i ardal. Mae'r amrywiaeth yn faint o nofio am ddim a gynigwyd a faint o gyfranogwyr sydd wedi cymryd rhan wedi bod yn thema gyson yn ystod y cyfnod gwerthuso. Nid yw'r amrywiadau wedi bod yn gyfyndedig i ddadansoddiad rhwng y 22 awdurdod lleol, ond rhwng pyllau yn yr awdurdodau lleol hefyd. Mae amser wedi bod yn ddimensiwn pellach gyda gwahaniaethau'n dod i'r amlwg mewn gwahanol dymhorau a gwahanol flynyddoedd ar gyfer pyllau ac awdurdodau lleol arbennig. Mae'r ffactorau hyn, ynghyd â chasglu data annigonol am y defnyddwyr ar y dechrau, wedi ei gwneud yn anodd i sefydlu patrymau defnydd fesul ardal.

Ar y dechrau yn arbennig, roedd llawer o awdurdodau lleol yn ei chael yn anodd i weithredu'r MNADD ac nid oeddent yn gallu, neu fe ddewiswyd peidio:

- Darparu ffurflenni data'n dangos lefel y cyfranogiad
- Llunio cynlluniau cyflwyno amserol a pherthnasol
- Datblygu mentrau'n canolbwyntio ar weithgareddau strwythuredig
- Targedu grwpiau 'anodd eu cyrraedd', yn arbennig y rhai gydag anabledau
- Datblygu galas lleol a chymryd rhan yn yr Ŵyl Ddŵr Genedlaethol.

Yn ystod y tair blynedd diwethaf, gwelwyd gwelliannau yn y dull o reoli'r MNADD (gyda rhai'n ganlyniad i ddarganfyddiadau ein hadroddiadau interim i raddau). Mae cyflwyno system newydd ar gyfer casglu data am y defnyddwyr i'w ganmol. Er bod hyn yn ofynnol ar ran yr awdurdodau lleol o'r dechrau, nid oedd un system gyffredin wedi'i sefydlu ac felly cafwyd 22 math gwahanol o ffurflenni data yn mesur gwahanol feini prawf. Roedd dryswch sylweddol ymhlith y cydlynwyr data. Fis Ebrill 2005, cyflwynwyd system newydd yn canolbwyntio ar y 'cyfenwadur lleiaf' i fodloni gofynion lleiafswm yr holl awdurdodau lleol. Fe'i cydlynwyd a'i rheolwyd yn ganolog gan y tîm gwerthuso. Dros gyfnod o amser, mae hyn wedi arwain at ffurflenni llawer mwy cyson ac mae'r system o reoli data ar gyfer y MNADD yn llawer cadarnach a chliriach. Canfu adolygiad dilysu,



a gynhaliwyd gan Uned Data Llywodraeth Leol (UDLIL 2006), bod naw system wahanol yn bodoli ar gyfer cofnodi defnydd, yn amrywio o feiro a phapur mewn rhai pyllau i systemau til a / neu gyfrifiadurol penodol mewn lleoliadau eraill.

Roedd yn ofynnol hefyd i awdurdodau baratoi cynlluniau cyflwyno. Fodd bynnag, roedd diffyg gallu yn yr Uned Polisi Chwaraeon yn Llywodraeth y Cynulliad i gynghori ac adolygu cynlluniau'n golygu nad oedd llawer yn gweld y rhain fel dim byd mwy nag ymarfer biwrocraidd. Nid oedd eu cyflwyno'n cael ei ystyried fel cyfrwng i herio a datblygu'r gwaith o gyflwyno'r MNADd yn lleol. Nid oedd y byr rybudd a roddwyd gan Lywodraeth y Cynulliad wrth gyhoeddi'r amserlenni cynllunio o gymorth o gwbl chwaith. Dangosodd adolygiad cynnar a wnaed gennym ni (yr Ail Adroddiad Interim yn 2005) wendidau'r cylch cynllunio a chanolbwyntiodd ar yr angen am ddatblygu cynlluniau cyflwyno cadarn. Mae dadansoddi'r cynlluniau dros gyfnod o bedair blynedd wedi dangos gwelliannau ond maent yn parhau'n amrywiol o ran eu safon ac mae diffyg targedau neu fesurau penodol yn y rhan fwyaf ohonynt ar gyfer mesur y gweithredu lleol. Mae nifer o awdurdodau lleol angen datblygu targedau heriol o hyd, a sefydlu mecanweithiau adolygu cadarn.

### Gweithredu gan Reolwyr Canolfannau

Ar y dechrau, roedd y rhan fwyaf o'r awdurdodau lleol yn dewis cyflwyno'r cynllun 16 oed ac iau drwy gyfrwng sesiynau 'trochi rhydd' di-strwythur. Yn yr un modd, canolbwyntiodd lansiad y cynllun 60+ ar yr amseroedd nofio cyhoeddus cyfredol yn hytrach na dulliau mwy blaengar o weithredu. O'r herwydd, canolbwyntiodd y MNADd yn gyffredinol ar logisteg weithredol yn hytrach na datblygu arferion newydd.

Dangosodd yr arolygon a gynhaliwyd gan reolwyr y canolfannau yn 2005 a 2006 bod yr awdurdodau'n gliriach ynghylch gofynion y MNADd a'r dull o'i weithredu'n lleol. Yn y ddau arolwg, ychydig o broblemau gweithredu a gofnodwyd gan y rheolwyr wrth weithredu nofio am ddim ar gyfer y grŵp oedran 60+. Serch hynny, mae profiad y cynllun 16 oed ac iau wedi bod yn llawer mwy heriol. Fodd bynnag, canfu arolwg mwy diweddar ar reolwyr y canolfannau fod nifer o'r anawsterau a brofwyd ar y dechrau, yn cynnwys ymdopi â nifer fawr o ddefnyddwyr, cofrestru, ymddygiad pobl ieuainc (CChC 2004), yn ymddangos fel pe baent yn llai problemus. Credid fod y rhan fwyaf o'r materion hyn yn rhedeg yn esmwyth yn awr ac roedd y sialsensau presennol yn cael eu hystyried fel rheoli nofwyr mewn derbynfeydd ac ystafelloedd newid ar ddyddiau prysur a rheoli ymddygiad lleiafrif bychan o ddefnyddwyr. Ceir tystiolaeth bod rhai awdurdodau lleol wedi mynd ati i roi sylw i ymddygiad gwael ac wedi arbrofi er mwyn canfod dulliau llwyddiannus o weithredu (gweler Astudiaeth Achos 16).

## ASTUDIAETH ACHOS 16

### Gwella Ymddygiad, Waterworld Wreccsam

Mewn ymgais i wella ymddygiad plant yn Waterworld Wreccsam, gweithiodd y staff mewn dwy ffordd:

1) Yn ystod haf 2006, targedwyd mwyafrif y sesiynau nofio am ddim at grwpiau arbennig, e.e. grwpiau teuluol, dan 12 oed, sesiynau anabled. Er bod y gwahanu hwn wedi arwain at well patrymau ymddygiad, gwelwyd llai o bresenoldeb, yn bennaf mae'n debyg oherwydd y dryswch ynghylch amser y sesiynau.

2) Yn ystod haf 2007, aethpwyd yn ôl i gynnis mynediad agored i'r holl sesiynau nofio strwythuredig a di-strwythur. Fodd bynnag, cyflwynwyd system fandio, yn caniatáu uchafswm o awr yn y pwll i nofwyr. O ganlyniad, mae'r nifer yn y pwll yn cael ei reoli'n fwy llwyddiannus, rhoddir llai o bwysau ar y swyddogion achub ac maent yn gallu delio â phlant problemus yn well.

### Mabwysiadu Dull Datblygiadol o Weithredu

Un elfen allweddol sy'n penderfynu ar lwyddiant y fenter yw i ba raddau y mae awdurdodau lleol wedi edrych arni'n ddatblygiadol, yn hytrach nag fel ymarfer gweinyddol. Os rhoddwyd pwyslais ar ddatblygu, ceir tystiolaeth glir o arfer dda'n dod i'r amlwg ac mae'r MNADd wedi cael ei haddasu i ystyried anghenion lleol.

Mae arfer dda wedi cael ei sefydlu gan nifer o reolwyr pyllau unigol ac rydym wedi tynnu sylw at nifer o enghreifftiau ym Mhennod 2. Mae nifer ohonynt yn ymwybodol iawn o'u marchnad leol ac o ddatblygu rhaglenni sensitif o weithgareddau yn lleol, yn cynnwys rhai rhaglenni arbrofol a blaengar sydd wedi'u mabwysiadu yn rhywle arall (er enghraifft, Astudiaeth Achos 2). Ond mae'r rhan fwyaf o'r awdurdodau wedi dweud bod rheolwyr y pyllau unigol yn ystyried eu swyddogaeth bennaf fel gofalu am anghenion cyffredinol eu canolfan a'i defnyddwyr. Nid ydynt yn gallu rhoi digon o sylw i'r MNADd ac nid ydynt yn gallu cydlynu'r datblygiad yn rhwydd yn ardal yr awdurdod lleol cyfan.

Felly, er gwaethaf ymdrechion personol rhai o'r rheolwyr unigol hyn i wneud y MNADd yn llwyddiant, mae'r rhan fwyaf o'r awdurdodau lleol wedi teimlo bod raid penodi swyddog sy'n benodol gyfrifol am ddatblygu nofio am ddim yn lleol. Cafodd y mater hwn ei ddatgan yn gyntaf yn ein Hail Adroddiad Interim yn 2005. Mae mwyafrif yr awdurdodau lleol (16) yn cyflogi swyddogion datblygu ar hyn o bryd, rhai'n llawn amser ac eraill yn rhan amser. Mae'r rhai heb swyddogion o'r fath yn gynghorau llai yn gyffredinol ac nid ydynt wedi llwyddo i sicrhau cyllid ar gyfer swyddi o'u cyllidebau eu hunain, na chan CChC.

Mae'r rhan fwyaf o'r prif swyddogion a nifer o reolwyr y pyllau'n ystyried swyddogaeth swyddog datblygu

fel un hanfodol i lwyddiant nofio am ddim. Maent yn nodweddiadol gyfrifol am ddatblygu amrywiaeth eang o weithgareddau dŵr a / neu adolygu'r ddarpariaeth ddysgu ar gyfer nofio ledled yr awdurdod. Ac mae awdurdodau gyda swyddogion datblygu wedi ei chael yn haws i gydlynu gweithgarwch a dod â rheolwyr y gwahanol byllau at ei gilydd i wynebu gwahanol agweddau'r MNADD. Er enghraifft, er bod gan Lywodraeth y Cynulliad ddisgwyliadau mawr i ddechrau o'r awdurdodau lleol, y corff rheoli cenedlaethol a'r clybiau lleol yn cydweithio i greu cyswllt priodol, roedd y diffyg cynnydd yn bryder a chafodd ei arenwi fel un o'r rhwystrau ym Mhennod 3. Fodd bynnag, mae penodi swyddogion datblygu (gyda rhai ohonynt ond yn eu swyddi ers cyfnod byr) yn awgrymu bod y mater hwn yn cael sylw yn awr ac y gallai ddarparu dimensiwn positif pellach. Gwnaed cynnydd yng Nghaerffili gyda'r swyddog datblygu wedi adolygu a chydlynu gweithredoedd y gwahanol ganolfannau hamdden, a arweiniodd yn ei dro at aildrefnu rhaglen nofio'r awdurdod gyda gwersi nofio safonol a chymwysterau safonol yn cael eu sefydlu ar gyfer staff canolfannau.

Mewn achosion eraill, mae'r swyddogion wedi bod yn gyfrifol am rwydweithio'n allanol a datblygu cyswllt gyda sefydliadau eraill. Mae'r datblygiadau hyn yn arwain yn aml iawn at gyflwyno rhaglenni penodol. Dangosodd y cyfweiliadau a gynhaliwyd gyda'r swyddogion datblygu'r amrywiaeth eang o sefydliadau oedd yn cael eu defnyddio, gyda llawer ohonynt ddim yn cael eu harenwi yn y gorffennol fel partneriaid traddodiadol. Roedd hyn yn arbennig o berthnasol i'r cynllun 60+.

Mae'n ymddangos hefyd bod y swyddogion datblygu wedi bod yn arbennig o lwyddiannus wrth ddatblygu rhaglenni ar gyfer grwpiau 'anodd eu cyrraedd'. O ran datblygu cynllun, mae'n ymddangos bod Caerdydd ac Abertawe wedi sicrhau dull cynhwysfawr o weithredu gyda'r pedwar grŵp targed penodol a arenwyd fel rhan o'r MNADD wedi cael sylw.

Mae'r angen am integreiddio datblygiad nofio'n rhan o gynllun rheoli cyffredinol awdurdod yn allweddol. Mae'n rhaid i'r strategaethau datblygu ddefnyddio'r data a'r wybodaeth gyffredol; cynllunio a phennu targedau lleol; monitro ac adolygu cynnydd a datblygu dull o weithredu ar ffurf camau, dros gyfnod o amser. Mae CBS Pen-y-bont ar Ogwr yn enghraifft arbennig o gryf o sut mae'r dull hwn o weithredu wedi bod yn sail i'w raglen ddatblygu - gweler Astudiaeth Achos 17.

## ASTUDIAETH ACHOS 17

### Defnyddio Gwybodaeth Reoli fel Sail ar gyfer Datblygiad, Pen-y-bont ar Ogwr

Yn 2004 a 2005, cafodd pawb a ddefnyddiodd nofio am ddim eu cofnodi'n electronig drwy gyfrwng 'Cerdyn Pont' a roddwyd i'r plant cofrestredig i gyd. Cofnodwyd a dadansoddwyd y data, fel bod CBS Pen-y-bont ar Ogwr yn gallu gwerthuso'r cynllun yn fwy effeithiol a chanfod meysydd ar gyfer eu datblygu ymhellach.

Yn ystod haf 2005, gwerthuswyd y data a gasglwyd a gwelwyd gostyngiad yn y cyfranogiad mewn trochi rhydd a chynnydd yn y galw am sesiynau strwythuredig. Hefyd, fe alluogodd yr awdurdod i ddadansoddi oedran a rhyw y cyfranogwyr ar lefel pwll. O ganlyniad i'r dadansoddiad, gwnaeth y Cyngor nifer o welliannau yn 2006, yn cynnwys:

- Gwell marchnata
- Cyflwyno sesiynau strwythuredig gan ddenu genethod 14+ oed
- Targedu llwybrau bws penodol
- Cyflwyno sesiynau penodol i deuluoedd
- Ymweld ag ysgolion cynradd ac uwchradd a chylchoedd chwarae i hybu'r cynllun.

Ledled yr awdurdod lleol, cynyddodd y sesiynau nofio am ddim ryw 88% yn ystod haf 2006 o gymharu â haf 2005 – cynyddodd y sesiynau di-strwythur o tua 12,700 i 18,700 a chynyddodd y sesiynau nofio strwythuredig o ryw 1,100 i 7,400 o sesiynau nofio.

# Pennod Pump – Crynodeb a Goblygiadau ar gyfer Polisiâu'r Dyfodol

## Darganfyddiadau Allweddol

### Effeithiolrwydd y Broses Beilot

- Mae'r broses beilot wedi profi'n effeithol. Mae wedi bod yn brawf da o effaith darparu nofio am ddim ac mae wedi tynnu sylw at nifer o wersi pwysig am reoli nofio am ddim ar lefel genedlaethol a lleol.

### Cyfranogiad

- Mae darparu nofio am ddim wedi cynyddu cyfranogiad – ymhlith y grwpiau 16 oed ac iau a 60+ oed.
- Mae mwy na hanner plant Cymru rhwng 10 ac 14 oed wedi cymryd rhan yn y sesiynau nofio am ddim, ac maent wedi bod yn arbennig o boblogaidd ymhlith y rhai 11-13 oed.
- Mae'r cynllun 60+ wedi arwain at gynydd yn nifer y sesiynau nofio, yn bennaf drwy annog y nofwyr presennol i nofio'n amlach.
- Gwelwyd y cyfranogiad yn y cynllun 16 oed ac iau ar ei uchaf yn 2004-05.
- Mae mwyafrif helaeth y sesiynau nofio am ddim a ddarparwyd ar gyfer y cynllun 16 oed ac iau a 60+ yn parhau'n ddi-strwythur, ond gwelwyd cynnydd yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf yn nifer y sesiynau nofio strwythuredig.
- Mae'r cynnydd yn nifer y plant 16 oed ac iau sydd wedi cymryd rhan mewn sesiynau nofio strwythuredig, i fyny o 24,000 yn 2004-05 i 71,000 yn 2006-07, yn arwyddocaol.
- Os cynigiwyd sesiynau strwythuredig, maent wedi arwain yn aml at gyswllt â chlybiau nofio ac, mewn rhai achosion, at ffurfio clybiau newydd.
- Mae nofio am ddim wedi cael effaith positif ar gyfranogiad ymhlith y 'grwpiau anodd eu cyrraedd', yn arbennig y rhai'n byw yn yr ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf.
- Ond mae'r cyfranogiad gan bobl ag anableddau wedi bod yn gymysg ac wedi amrywio'n sylweddol o awdurdod i awdurdod. Ac ni cheir llawer o dystiolaeth bod yr awdurdodau wedi mynd ati i weithio'n benodol gyda phobl ag anableddau yn y grŵp oedran 60+.

## Hawl am Ddim a Rhwystrau'n Atal Cyfranogiad

- Roedd darparu nofio am ddim yn ffactor bwysig wrth annog mwy o bobl ieuainc i nofio a'r cyfranogwyr 60+ oed i nofio'n amlach.
- I'r rhan fwyaf o bobl, nid cost oedd yr unig rwystr na'r rhwystr pwysicaf yn aml o ran cymryd rhan. Roedd ffactorau eraill, fel lleoliad y pwll, amseroedd y sesiynau nofio am ddim, yr awydd am osgoi pyllau swnllyd a phrysur a diffyg hoffter o nofio i gyd yn arwyddocaol wrth atal cyfranogiad.
- Felly, nid yw darparu sesiynau am ddim yn ddigon ar ei ben ei hun i sicrhau cyfranogiad gan fwyafrif y boblogaeth gymwys.

### Grwpiau Targed

- Mae'r fenter wedi cynyddu cyfranogiad ymhlith y ddau grŵp oedran targed.
- Mae'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol yn cynnig sesiynau nofio am ddim drwy gydol y flwyddyn yn awr i'r grŵp oedran 60+. Ond nid yw nofio am ddim ar gael yn gyffredinol i blant oni bai am yn ystod gwyliau'r ysgol.

### Marchnata a Hyrwyddo

- Mae'r gwaith o farchnata a hyrwyddo'r MNADd wedi bod yn amrywiol, gydag effaith genedlaethol gyfyngedig. Mae'r rhan fwyaf o'r rhai sydd wedi cymryd rhan yn y sesiynau nofio am ddim wedi dweud eu bod wedi clywed amdanynt drwy dafod lleferydd neu drwy gyfrwng gwaith marchnata lleol gan awdurdodau lleol.

### Materion Rheoli

- Cynlluniwyd y MNADd gan Lywodraeth y Cynulliad a'i gweithredu gan y 22 awdurdod lleol yng Nghymru. Roedd y cyfarwyddyd polisi a gyhoeddwyd gan Lywodraeth y Cynulliad i fod yn hyblyg ac fe arweiniodd hyn at amrywiaethau sylweddol ledled Cymru yn y ffordd yr oedd y fenter yn cael ei gweithredu. Mae'r rhan fwyaf o'r awdurdodau lleol wedi ymroi i'r fenter. Mae rhai wedi brwydro i fodloni'r ddarpariaeth leiafswm sy'n ofynnol, ond mae eraill wedi rhagori arni.

- Gwelwyd gwelliannau yn ystod y cyfnod peilot wrth reoli nofio am ddim – ar lefel genedlaethol a lleol. Mae’r rhain wedi cynnwys: amcanion a nodau cliriach; gwell dulliau o gasglu data yn lleol; pwyslais cynyddol ar weithgarwch strwythuredig a thargedau grwpiau penodol; a gwell cyfathrebu rhwng swyddogion oddi mewn i awdurdodau lleol.
- Mae gwersi pwysig i’w dysgu oddi wrth y gwelliannau hyn – ar gyfer unrhyw estyniad ar nofio am ddim ac er mwyn rheoli a chyflwyno mentrau peilot cenedlaethol eraill.

### Dringo’n Uwch

- Wedi cyhoeddi strategaeth Dringo’n Uwch, mae’n rhaid i nofio am ddim gael ei ystyried yn awr fel rhan o bortffolio ehangach o weithgareddau er mwyn cyflwyno ar dargedau gweithgarwch corfforol newydd ac mae’n rhaid ei integreiddio’n well gyda pholisïau eraill Llywodraeth y Cynulliad, yn ogystal â bod yn sensitif i ardaloedd arbennig.

## Goblygiadau ar gyfer Polisiâu’r Dyfodol

Mae tystiolaeth y gwerthusiad yn tynnu sylw at uchafbwyntiau tair cyfres allweddol o faterion y bydd llunwyr polisiâu am eu hystyried o bosibl os yw nofio am ddim i gael ei ymestyn y tu hwnt i’r cyfnod peilot.

### Cyllid

Mae’n rhaid i bolisiâu’r dyfodol ystyried y pwysau ariannol ar wasanaethau chwaraeon a hamdden. Mae Uned Polisi Chwaraeon Llywodraeth y Cynulliad wedi cynyddu cyllid y llywodraeth ganolog ar gyfer chwaraeon yng Nghymru. Gwelwyd dirywiad, fodd bynnag, yng nghyllid y loteri genedlaethol ac mae gwasanaethau hamdden awdurdodau lleol dan fwy a mwy o bwysau ariannol. Fel gwasanaeth dewisol, mae chwaraeon a hamdden yn darged hawdd erioed ar gyfer toriadau yn y gyllideb mewn cynghorau sy’n cael trafferth i fodloni gofynion cynyddol y gwasanaethau statudol eraill. Yn y gorffennol, mae diffygion cyllidebol y gwasanaethau hamdden wedi cael eu datrys drwy godi prisiau. Mae cyflwyno nofio am ddim wedi golygu bod llai o sgôp yn bodoli ar gyfer cynyddu incwm fel hyn.

Dylai polisiâu’r dyfodol roi ystyriaeth i bump mater pwysig perthnasol i gyllid.

#### 1. Adolygu cyfanswm y cyllid sydd ar gael

Yn ystod y cyfnod peilot, mae’r cyllid craidd ar gyfer nofio am ddim wedi aros yr un fath tra bo costau rhedeg cyfleusterau wedi parhau i gynyddu. Cred awdurdodau lleol y bydd raid wrth gynnydd yn y cyllid sydd ar gael os yw nofio am ddim i gael ei ehangu’n llwyddiannus yn y dyfodol. Dylid cynnal adolygiad systematig, felly, o pa un ai yw hyn yn wir ac, os ydyw, faint o gyllid sydd ei

angen er mwyn diogelu llwyddiant nofio am ddim yn y dyfodol.

#### 2. Adolygu’r sail ar gyfer y fformiwlâu cyllid

Derbynnir yn eang ymhlith yr awdurdodau lleol mai’r fformiwlâu cyllido craidd oedd y dulliau mwyaf priodol o neilltuo cyllid yn ystod y cyfnod peilot. Fodd bynnag, cred llawer o gynghorau y bydd yn bwysig adolygu’r sail ar gyfer dosbarthu’r cyllid os am ehangu’r fenter.

#### 3. Hwyluso cynlluniau ariannol tymor canolig a hirdymor

Os yw nofio am ddim i gael sylfaen fwy parhaol, mae’n bwysig bod cynghorau’n gallu cynllunio ddwy i dair blynedd ymlaen llaw ac, felly, cael gwybod ymlaen llaw faint o arian fydd ar gael iddynt (yn dibynnu ar allu dangos eu bod wedi cyflwyno lefelau perfformio cytunedig). Am hynny, mae’n rhaid i awdurdodau lleol a rheolwyr canolfannau fod yn fwy strategol wrth gynllunio ymlaen llaw a chyflwyno gweithgareddau mwy strwythuredig ar ffurf camau, gyda gwell cyswllt â chlybiau lleol a grwpiau eraill.

#### 4. Cysylltu taliadau â pherfformiad

Yn ystod y cyfnod peilot, mae awdurdodau wedi derbyn cyllid waeth sut maent yn perfformio wrth weithredu nofio am ddim. Mae’n rhaid clymu’r cyllid yn y dyfodol yn agosach at ganlyniadau. Dylai canolfannau hamdden ac awdurdodau lleol ddarparu gwybodaeth reolaidd, fanwl gywir a diweddar am ddefnydd. Dylai’r systemau cofnodi ac adrodd yn ôl a ddefnyddir ganddynt, a’r ffurflenni data, gael eu gwirio a’u dilysu’n annibynnol. Dylid clymu taliadau wrth berfformiad yn unol â chytundebau pendant a lunnir rhwng Llywodraeth y Cynulliad a phob awdurdod lleol, yn sefydlu nodau a chanlyniadau clir. Dylid asesu perfformiad nid dim ond o ran nifer ond hefyd o ran ansawdd y ddarpariaeth, er mwyn creu cymhelliant ar gyfer datblygu gweithgareddau strwythuredig a gwobrwyo rheolwyr canolfannau nad ydynt yn dibynnu ar sesiynau ‘trochi’ cymharol rad.

#### 5. Sicrhau bod cyllid yn cyrraedd pyllau drwy gyfrwng cymhelliant

Yn ystod y cyfnod peilot, nid oedd rheolwyr y canolfannau hamdden yn cael cymhelliant ariannol i sicrhau bod nofio am ddim yn llwyddiant. Dylid cymhell y rheolwyr yn fwy uniongyrchol – naill ai drwy dalu cyfran o’r cyllid uniongyrchol i’r pyllau unigol neu drwy fynnu bod raid i awdurdodau ddatblygu eu cynlluniau cymhell eu hunain ar gyfer rheolwyr lleol er mwyn gwobrwyo’r rhai’n gweithredu nofio am ddim yn broactif.

### Cyflwyno Nofio Am Ddim

Mae gwerthusiad cynllun peilot y MNADd wed tynnu sylw at wyth mater pwysig perthnasol i gyflwyno nofio am ddim yn y dyfodol.



## **1. Sicrhau arweiniad gweithredol ar lefel genedlaethol**

Yn genedlaethol, amharwyd ar gyflwyno'r MNADd rhwng 2003-2005 gan yr amwysedd ynghylch swyddogaethau a chyfrifoldebau CChC a Llywodraeth y Cynulliad. Nid oedd rôl gynnar CChC wrth weithredu'r fenter mor llwyddiannus â mentrau eraill fel Campau'r Ddraig ac, yn fwy diweddar, '5x60'. Gadawodd hyn y fenter beilot heb unigolyn neu dîm i ddarparu'r oruchwyliaeth briodol. Mae'r arwyddion cynnar yn awgrymu bod y cydlyn a'r rheoli ychwanegol sydd wedi'i sicrhau wedi i CChC ymwneud mwy â'r fenter ers canol 2006 wedi arwain at well ffocws yn genedlaethol.

## **2. Hyrwyddo ymrwymiad lleol a'r gallu i weithredu nofio am ddim**

Gwelwyd amrywiaeth sylweddol ar lefel leol o ran yr effeithiolrwydd wrth weithredu nofio am ddim – rhwng y gwahanol awdurdodau lleol ac, mewn nifer o achosion, rhwng pyllau unigol yn yr un awdurdod lleol. Mae'r amrywiaeth yn adlewyrchu'n rhannol natur y cyfarwyddyd cenedlaethol a gyhoeddwyd gan Lywodraeth y Cynulliad, gan adael sgôp sylweddol ar gyfer dehongli lleol. Mae hefyd yn tynnu sylw at lefel amrywiol yr ymrwymiad i nofio am ddim ac, mewn rhai achosion, penderfyniad i anwybyddu lefel ddisgwyliedig y ddarpariaeth.

Os yw'r MNADd wedi bod yn llwyddiannus, mae'r awdurdodau wedi ei hystyried fel ymyrraeth bositif a oedd angen ei haddasu i'r cyd-destun lleol, gan weithredu mewn ffordd hyblyg a datblygiadol, yn hytrach na menter weithdrefnol a gweinyddol yn ei hanfod. Dylanwadwyd ar effeithiolrwydd y cyflwyno lleol gan argaeledd staff priodol yn yr awdurdodau lleol oedd yn fodlon gweithredu'n broactif er mwyn datblygu'r fenter mewn ffyrdd oedd yn rhoi sylw i anghenion a blaenoriaethau lleol. I rai awdurdodau, mae hyn wedi golygu penodi swyddog datblygu. I eraill, mae wedi golygu bod raid i reolwyr y pyllau chwarae rhan allweddol mewn hybu a thargedau lleol. Ond i eraill, mae wedi golygu creu partneriaethau gydag adrannau eraill yr awdurdod lleol a / neu sefydliadau allanol.

Bydd yn bwysig sicrhau bod yr awdurdodau nad ydynt wedi llwyddo i weithredu fel uchod yn gallu dysgu oddi wrth arfer dda er mwyn bod yn fwy effeithiol wrth ddatblygu strategaethau a thargedau lleol priodol ar gyfer nofio am ddim. Efallai y bydd y llunwyr polisi a / neu Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru'n dymuno ystyried ffyrdd o gryfhau'r mecanweithiau presennol ar gyfer cefnogi ac adolygu ymhlith swyddogion yr awdurdodau lleol a rheolwyr y canolfannau, ac ar gyfer rhannu arfer dda a ffyrdd blaengar o weithredu. Hefyd, mae'n rhaid sicrhau bod yr awdurdodau lleol wedi sefydlu fframweithiau cadarnach sy'n gallu cynllunio, pennu targedau a sicrhau bod mecanweithiau priodol yn bodoli ar gyfer monitro a gwerthuso.

## **3. Adolygu'r grwpiau targed**

Efallai y bydd llunwyr polisi am adolygu'r ddau grŵp oedran targed sydd wedi bod yn ffocws i'r cynllun peilot. Hefyd, efallai y byddai'n briodol gweithio gyda'r grwpiau oedran targed a chanfod yr adrannau arbennig o'r boblogaeth sydd fwyaf tebygol o ymateb yn bositif i'r ddarpariaeth am ddim.

## **4. Ystyried ehangu'r hawl ymhlith pobl ieuainc y tu allan i wyliau'r ysgol er mwyn annog gweithgarwch corfforol drwy gydol y flwyddyn**

Mae targedau Dringo'n Uwch yn galw am weithgarwch corfforol rheolaidd ymhlith plant a phobl ieuainc. Er mwyn cyflawni hyn, efallai y bydd raid ymestyn yr hawl dan y MNADd i amseroedd y tu allan i wyliau ysgol – yn arbennig, ar ôl ysgol ac ar benwythnosau.

## **5. Addasu'r fenter i anghenion a blaenoriaethau lleol**

Dangosodd y gwerthusiad nad oedd rhai awdurdodau lleol yn rhoi blaenoriaeth i 'grwpiau anodd eu cyrraedd'. Efallai mai nid hon yw'r ffordd fwyaf effeithiol o dargedu, ac y byddai'n well gwahodd awdurdodau lleol i benderfynu ar y bobl fwyaf priodol i dderbyn nofio am ddim yn eu hardaloedd. Byddai hyn yn golygu pwysleisio ar flaenoriaethau lleol drwy symud oddi wrth 'un maint i ffitio pawb' wrth weithredu a datblygu strategaethau lleol sy'n benodol i anghenion cymunedau ac ardaloedd arbennig.

## **6. Cynyddu amrywiaeth y gweithgareddau**

Ceir hefyd gyfleoedd i ymestyn amrywiaeth y gweithgareddau a all ddenu defnyddwyr newydd nad ydynt yn ymarfer ar hyn o bryd am nad ydynt yn hoffi nofio. Mae rhai o'r mentrau lleol mwyaf llwyddiannus wedi ymwneud â chyflwyno rhaglenni newydd yn cyfuno nofio â gweithgareddau eraill a / neu'n canolbwyntio ar faterion ffordd o fyw ac addysgol ehangach fel bwyta'n iach.

## **7. Sicrhau bod datblygiadau newydd yn cyd-fynd â'r mentrau presennol**

Ceir sawl menter sy'n cael eu datblygu ar hyn o bryd gan awdurdodau lleol ar ran Llywodraeth y Cynulliad a CChC. Mae'n bwysig integreiddio nofio am ddim gyda hwy a chyda strategaeth gyffredinol Dringo'n Uwch.

## **8. Sicrhau cyfranogiad cynladwy drwy greu cysylltiadau a phartneriaethau ehangach**

Mae cynladwyedd yn her o hyd a bydd ffurfio cysylltiadau â chyfleoedd clwb yn bwysig er mwyn sicrhau cynladwyedd. Mae defnydd o gyflenwad da o hyfforddwyr lleol a phobl yn cymell yn un ffordd o sicrhau cyfranogiad cynladwy. Mae'n bwysig ymestyn partneriaethau i sefydliadau heb ymwneud â chwaraeon, sy'n gallu cyrraedd grwpiau client allweddol y gellid eu denu i gymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgarwch corfforol.

## Eglurder Nodau a Chysylltiadau Penodol â Strategaethau a Pholisïau Eraill

Yn olaf, mae gwerthusiad cynllun peilot y MNADD wedi tynnu sylw at faterion pwysig perthnasol i nodau nofio am ddim a'i gysylltiadau â pholisïau eraill.

### 1. Egluro nodau

Ni chafodd nodau'r fenter beilot eu diffinio'n glir nac yn bendant iawn. Os ydym am ymestyn nofio am ddim, mae'n bwysig egluro'r rhain. A bydd yn bwysig unioni'r nodau hyn â rhai strategaeth Dringo'n Uwch (LICC 2005), Dringo'n Uwch – Y Camau Nesaf (LICC 2006), y ffocws ar lythrennedd corfforol (sy'n cefnogi'r cwricwlwm cenedlaethol mewn nofio, addysg awyr agored a sicrhau sgiliau) a strategaethau'n ymwneud â hybu iechyd, yn cynnwys y 'Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn yng Nghymru' (LICC 2003).

Mae'n rhaid i Lywodraeth y Cynulliad a CChC fanylu ynghylch sut mae nofio am ddim yn bwriadu cyfrannu at y strategaethau a'r targedau cyffredinol hyn a monitro ei berfformiad yn y termau hyn. Mae'n rhaid i awdurdodau ddatblygu strategaethau lleol pendant sy'n dangos sut mae cyflwyno rhaglenni a noddur gan Lywodraeth y Cynulliad yn cyfrannu at y strategaethau hyn, yn enwedig y targedau a osodwyd ar gyfer Dringo'n Uwch, mewn ffordd sy'n cyfateb i anghenion eu hardaloedd orau.

### 2. Datblygu strategaethau lleol effeithiol

Yn genedlaethol ac yn lleol, mae'n rhaid i nofio am ddim gael ei ystyried yn awr fel rhan o bortffolio o fentrau'n ceisio cynyddu gweithgarwch corfforol, yn hytrach nag ymyrraeth ar ei phen ei hun. Fel rhan o Gytundebau Partneriaeth Awdurdodau Lleol (menter dan arweiniad CChC), bydd raid i gynghorau baratoi strategaeth chwaraeon a gweithgarwch corfforol leol sy'n cynnwys, ond heb ganolbwyntio'n unig ar, nofio neu weithgareddau dŵr eraill. I rai awdurdodau, fe all hyn arwain at ffocws parhaus ac ehangach o bosibl ar nofio, ond efallai y bydd eraill am roi pwyslais ar weithgareddau sych. Bydd raid i bob awdurdod roi pwyslais ar gyrraedd grwpiau nad ydynt yn dymuno cymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgarwch corfforol fel rheol – er enghraifft, y grŵp oedran 14-16 gyda'r mwyafrif ohonynt heb eu denu i gymryd rhan yn y fenter nofio am ddim hyd yma.

### 3. Cryfhau'r cysylltiadau â gweithgareddau a sefydliadau cymunedol

Er mwyn cyrraedd targedau Dringo'n Uwch, bydd yn bwysig creu cysylltiadau cryfach rhwng nofio am ddim a rhwydweithiau o weithgareddau a sefydliadau cymunedol. Er bod y broses yn debygol o ddibynnu ar ddarparwyr, dylid sicrhau llawer mwy o gyfleoedd i ennyn cyfranogiad gweithredol y bobl a'r cymunedau lleol. Byddai strategaeth gyfrannol, gymunedol yn sicrhau dull mwy amrywiol o weithredu ac yn arwain at

newid o gyfleoedd a arweinir gan gyflenwad i gyfleoedd a arweinir gan anghenion. Ceir achos dros sefydlu 'bwydlen ddatblygu' bellgyrhaeddol (yn enwedig mewn perthynas â phobl ieuainc) a bydd hyn yn allweddol os am sicrhau y cymerir rhan mewn gweithgarwch corfforol o gyfnod plentyndod i gyfnod fel oedolyn (CChC 2005b). Bydd sicrhau bod egwyddorion datblygu cadarn yn eu lle yn rôl allweddol arall i ddarparwyr, a sicrhau bod cyfleoedd clir ar gael i gyfranogwyr symud i fyny ac ar draws llwybrau datblygu.

## Cyfeiriadau

- Adams, L. a West, S. (2006) *Age Concern: Just Above the Breadline Living on a Low Income in Later Life*, Llundain: Age Concern.
- Coalter, F. (2001) *Realising the Potential for Cultural Services: The Case for Sport*, Llundain: Cymdeithas Llywodraeth Leol
- Yr Adran ar gyfer Addysg a Sgiliau a'r Adran ar gyfer Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (2003) *Swimming Charter*, Swydd Nottingham: DfES Hawlfraint y Goron
- Lawton, J. Smith, F. D. a Way, V. (Eds) (1995) *Introduction to Swimming, Teaching and Coaching*. Loughborough: Swimming Times Cyf.
- Uned Data Llywodraeth Leol (2006) *Adroddiad Ansawdd Data'r Fenter Nofio Am Ddim*, Caerdydd: UDLIL
- Y Swyddfa ar gyfer Ystadegau Cenedlaethol (2006) *Registrar General's Mid-Year Estimates of Population 1991-2005*, Cyhoeddwyd yn 2006
- Cyngor Chwaraeon Cymru (2004a) *Adroddiad i Lywodraeth Cynulliad Cymru ar Gynllun Peilot Nofio Am Ddim - Gwyliau Haf 2003*, Caerdydd: Cyngor Chwaraeon Cymru
- Cyngor Chwaraeon Cymru (2004b) *Pobl Ieuainc Egniol yng Nghymru, Diweddariad Chwaraeon Rhif 58*, Caerdydd: Cyngor Chwaraeon Cymru
- Cyngor Chwaraeon Cymru (2005a) *Cyfranogiad Chwaraeon Oedolion a'u Haelodaeth o Glybiau yng Nghymru 2002/03, Diweddariad Chwaraeon Rhif 57*, Caerdydd: Cyngor Chwaraeon Cymru
- Cyngor Chwaraeon Cymru (2005b) *Fframwaith ar gyfer Datblygu Chwaraeon a Gweithgarwch Corfforol: O Strategaeth i Weithredu*, Caerdydd: Cyngor Chwaraeon Cymru
- Cyngor Chwaraeon Cymru (2006) *Cyfranogiad Plant mewn Chwaraeon a Gweithgarwch Corfforol yn 2006, Diweddariad Chwaraeon Rhif 63*, Caerdydd: Cyngor Chwaraeon Cymru
- Llywodraeth Cynulliad Cymru (2003) *Cymru: Gwlad Well*, Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru
- Llywodraeth Cynulliad Cymru (2005) *Dringo'n Uwch - Strategaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer Chwaraeon a Gweithgarwch Corfforol*, Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru
- Llywodraeth Cynulliad Cymru (2006) *Dringo'n Uwch - Y Camau Nesaf*, Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru
- Llywodraeth Cynulliad Cymru (2007) *Addysg Gorfforol yn y Cwricwlwm Cenedlaethol yng Nghymru, Cyfnodau Allweddol 2-4, Dogfen Ymgynghorol*, Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru
- Llywodraeth Cynulliad Cymru (2003) *Y Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn yng Nghymru*, Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru

## Adroddiadau Gwerthuso Interim

<http://www.cyngor-chwaraeon-cymru.org.uk/library-services>

Bolton, N. Smith, B. Jennings, C. a Wall, M. (2005) *Gwerthusiad o Fenter Nofio Am Ddim LICC 2004-2007 - Yr Adroddiad Interim Cyntaf*, Caerdydd: InVEST, APCC

Bolton, N. Smith, B. Jennings, C. ac Anderson, M. (2005) *Gwerthusiad o Fenter Nofio Am Ddim LICC 2004-2007 - Yr Ail Adroddiad Interim*, Caerdydd: InVEST, APCC

Bolton, N. Smith, B. Jennings, C. ac Anderson, M. (2006) *Gwerthusiad o Fenter Nofio Am Ddim LICC 2004-2007 - Y Trydydd Adroddiad Interim*, Caerdydd: InVEST, APCC

Bolton, N. Anderson, M. Smith, B. a Jennings, C. (2007a) *Gwerthusiad o Fenter Nofio Am Ddim LICC 2004-2007 - Astudiaeth Achos 60+ Blaenau Gwent - Y Pedwerydd Adroddiad Interim*, Caerdydd: InVEST, APCC

Bolton, N. Shami, R. Anderson, M. Smith, B. a Jennings, C. (2007b) *Gwerthusiad o Fenter Nofio Am Ddim LICC 2004-2007 - Y Fenter Nofio Am Ddim: Datblygu Chwaraeon Anabledl Y Pedwerydd Adroddiad Interim*, Caerdydd: InVEST, APCC

Bolton, N. Anderson, M. Smith, B. Jennings, C. (2007c) *Gwerthusiad o Fenter Nofio Am Ddim LICC 2004-2007 - Y Pumed Adroddiad Interim*, Caerdydd: InVEST, APCC.

## Grŵp Llywio'r Gwerthusiad

Cadeirydd: Michael Shepherd (ymddiswyddodd Rhag 05); Dr Rachel Hughes (o Chwef 06)

Barbara Atton

Lowri Bunn

Sara Butlin

Arthur Emyr

Elaine Hopkins

Anne Layzell

Rebecca Mattingley

Jenny Murphy

James Owens

Steve Woodfine

Cynrychiolwyr o'r Tîm Gwerthuso

## Y Tîm Gwerthuso

Dr Nicola Bolton                      Rheolwr y Prosiect, Ysgol Chwaraeon Caerdydd, APCC

Melissa Anderson                    Cynorthwy-ydd Gwerthuso, Ysgol Chwaraeon Caerdydd, APCC

Bev Smith                              Ysgol Chwaraeon Caerdydd, APCC

Chris Jennings                      Ysgol Chwaraeon Caerdydd, APCC

Yr Athro Steve Martin              Ymgynghorydd Allanol

Ymchwil a Gweinyddu gan Ysgol Chwaraeon Caerdydd, APCC

Dr Bill Davies

Carmen Hayes

Laurence Llewelyn

Dr Andy Miles

John Rawlins

Yvonne Saker

Romani Shami

Mike Wall

Dymuna'r Tîm Gwerthuso gydnabod y gefnogaeth a gafwyd gan Barbara King yn trawsysgrifio a Ceri Thomas yn yr Ŵyl Ddŵr Genedlaethol yn 2005.



## Sefydliadau'n Cymryd Rhan

Canolfan Hamdden Aberaeron	Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy	Uned Data Llywodraeth Leol
Canolfan Chwaraeon Abercynon	Canolfan Hamdden Corwen	Pwll Maerdy
Pwll Nofio Aberdâr	Canolfan Hamdden Crymych	Pwll Nofio Maesteg
Canolfan Gymunedol Aberfan a Bro Merthyr	Stadiwm Cwmbrian	Pwll Nofio Maindee
Canolfan Hamdden Y Fenni	Ysgol Gyfun Cwmtawe	Pwll Nofio Maendy
Canolfan Hamdden Abergele	Ysgol Gyfun Cymer Afan	Canolfan Hamdden Maldwyn
Ysgol Gyfun Abertileri	Pwll Nofio Cymer	Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr
Canolfan Chwaraeon Abertileri	Canolfan Hamdden Dinbych	Tudful
Campws Hamdden Lido Afan	Cyngor Sir Ddinbych	Canolfan Hamdden Aberdaugleddau
Canolfan Hamdden Amlwch	Canolfan Hamdden Dwyfor	Canolfan Chwaraeon Yr Wyddgrug
Canolfan Hamdden Dyffryn Aman	Canolfan Hamdden Dwyrain Maesyfed	Canolfan Hamdden Trefynwy
Canolfan Hamdden Arfon	Canolfan Hamdden Eastern	Cyngor Sir Fynwy
Pwll Nofio Bangor	Canolfan Hamdden Glynebwy	Canolfan Hamdden Treforys
Canolfan Hamdden Y Barri	Pwll Nofio Edwardsville	Canolfan Hamdden Nantyglo
Canolfan Hamdden Bedwas	Canolfan Hamdden Fairwater,	Pwll Nofio Narberth
Canolfan Hamdden Betws	Caerdydd	Canolfan Hamdden Castell-nedd
Ysgol Gyfun Blackwood	Canolfan Hamdden Fairwater, Torfaen	Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd
Canolfan Hamdden Blaenafon	Ffederasiwn Chwaraeon Anabledd	Port Talbot
Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent	Cymru	Canolfan Hamdden Newbridge
Canolfan Hamdden Aberhonddu	Canolfan Chwaraeon Abergwaun	Canolfan Hamdden Castell-newydd
Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr	Canolfan Hamdden Flash	Emlyn
Canolfan Hamdden Pen-y-bont ar Ogwr	Pafiliwn Y Fflint	Canolfan Casnewydd
Canolfan Hamdden Bro Ddyfi	Cyngor Sir y Fflint	Cyngor Dinas Casnewydd
Canolfan Hamdden Bro Dysynni	Canolfan Hamdden Glaslyn	Pwll Pentref Chwaraeon Rhyngwladol
Pwll Nofio Bro Ffestiniog	Pwll Nofio Gwaunfarren	Casnewydd
Pwll Awyr Agored Brynman	Canolfan Hamdden a Gweithgarwch	Pwll Cymunedol Olchfa
Canolfan Chwaraeon Bwcle	Gwyn Evans	Ysgol Gyfun Penfro
Canolfan Chwaraeon Llanfair-ym-Muallt	Cyngor Sir Gwynedd	Canolfan Hamdden Penfro
Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili	Canolfan Hamdden Harlech	Cyngor Sir Benfro
Canolfan Hamdden Caerffili	Pwll Nofio Hwlfordd	Canolfan Hamdden Penarth
Canolfan Hamdden Caldicot	Canolfan Hamdden Hawthorn	Pwll Nofio Pencoed
Cyngor Sir Caerdydd	Pwll Nofio Hay	Canolfan Hamdden Penlan
Canolfan Hamdden Aberteifi	Canolfan Hamdden Heolddu	Canolfan Hamdden Penllyn
Canolfan Hamdden Caerfyrddin	Canolfan Hamdden Caergybi	Neuadd Chwaraeon a Phwll
Cyngor Sir Gaerfyrddin	Canolfan Hamdden Treffynnon	Pentrefhafod
Canolfan Hamdden Cefn Fforest	Cyngor Sir Ynys Môn	Canolfan Hamdden Pentwyn
Ysgol Gyfun Cefn Hengoed	Canolfan Chwaraeon Knighton	Ysgol Gyfun Penyrheol
Canolfan Hamdden Cefn Hengoed	Canolfan Hamdden Llanbedr Pont Steffan	Canolfan Hamdden Penyrheol
Cyngor Sir Ceredigion	Pwll Nofio Llanymddyfri	Canolfan Hamdden Plas Arthur
Canolfan Hamdden Cas-Gwent	Canolfan Chwaraeon Llandrindod	Hamdden a Chelf Plas Madog
Canolfan Hamdden a Gweithgarwch Y Waun	Pwll Nofio Llandudno	Canolfan Hamdden Plascrug
Canolfan Hamdden a Gweithgarwch Clywedog	Canolfan Hamdden Llandysul	Pwll Nofio Pontardawe
Ysgol Gyfun Coedcae	Canolfan Hamdden Llanelli	Canolfan Fyw'n Iach Pontypŵl
Canolfan Hamdden Colwyn	Canolfan Chwaraeon Llanfyllin	Cyngor Sir Powys
Canolfan Chwaraeon Cei Connah	Pwll Nofio Llangeinor	Canolfan Nova Prestatyn
	Canolfan Chwaraeon Llanidloes	Pwll Nofio Pyle
	Canolfan Hamdden Llanisien	Ysgol Uwchradd Queen Elizabeth
	Ysgol Uwchradd Llanrhymni	Canolfan Hamdden Rhaeadr
	Pwll Nofio Llanrwst	Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda
	Canolfan Hamdden Llantrisant	Cynon Taf
	Canolfan Hamdden Llanilltud Fawr	Canolfan Chwaraeon Rhondda Fach
	Canolfan Hamdden Lliswery	Canolfan Chwaraeon y Rhondda
		Ysgol Uwchradd Rhosnesni

Canolfan Hamdden a Gweithgarwch  
Rhosnesni  
Heulfan Y Rhyl  
Canolfan Hamdden Yr Isga  
Canolfan Hamdden Rhuthun  
Ysgol Gyfun Sandfields  
Pwll Nofio Splott  
Cyngor Chwaraeon Cymru  
Canolfan Hamdden Tyddewi  
Cyngor Dinas a Bwrdeistref Abertawe  
Canolfan Hamdden Dinbych-y-pysgod  
Y Pafiliwn

Cyngor Bro Morgannwg  
Pwll Nofio Tonyrefail  
Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen  
Ysgol Gyfun Tredegar  
Canolfan Chwaraeon Tredegar  
Canolfan Hamdden Tregaron  
Pwll Nofio Treherbert  
Canolfan Hamdden Bro Castell-nedd  
Pwll Cenedlaethol Cymru, Abertawe  
Canolfan Hamdden a Gweithgarwch  
Waterworld  
Cymdeithas Nofio Amatur Cymru

Llywodraeth Cynulliad Cymru  
Canolfan Hamdden Western  
Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam  
Ysgol Bro Myrddin  
Ysgol Gyfun Bro Morgannwg  
Ysgol Rhiwabon  
Ysgol Syr Hugh Owen  
Canolfan Chwaraeon Ystradgynlais

## Cyfranwyr Unigol

### Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent

Sue Brosnan	Awst 2006
Andrew Gardner	Hydref 2005
Karl Hale	Awst 2006, Mawrth 2007
Annette King	Awst 2006
Victoria Norman	Awst 2006
Ashley Owen	Tachwedd 2005, Mawrth 2007
Kay O'Shea	Awst 2006
Lynn Phillips	Tachwedd 2006
Glyn Williams	Tachwedd 2005
Simon Williams	Tachwedd 2005, Mawrth 2007
Cath Woods	Awst 2006

### Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

Greg Allen	Tachwedd 2005, Mawrth 2007
Anne Andersen	Ionawr 2006, Awst 2006
Lowri Bunn	Hydref 2005, Tachwedd 2006
David Howley	Tachwedd 2005, Mawrth 2007
Jonathan Lewis	Tachwedd 2005, Mawrth 2007
Karl Patterson	Tachwedd 2005, Mawrth 2007
Linda Smith	Tachwedd 2005
Paul Williams	Tachwedd 2005, Mawrth 2007

### Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili

Peter Gomer	Tachwedd 2006
Sian Jones	Hydref 2005, Tachwedd 2005, Mawrth 2007
John Poyner	Tachwedd 2005, Mawrth 2007
Bryan Reynolds	Tachwedd 2005, Mawrth 2007
Jeff Reynolds	Tachwedd 2005
Barrie Swift	Tachwedd 2006
Paul Taylor	Ionawr 2006

### Cyngor Sir Caerdydd

Graham Bailey	Tachwedd 2005
Shirley Bourge	Mai 2005, Hydref 2005, Tachwedd 2006
George Frantzeskou	Tachwedd 2006
Trevor Gough	Mai 2005, Tachwedd 2006
Anthony Hayes	Mawrth 2007

Dave Jackson	Hydref 2005, Tachwedd 2005, Mawrth 2007, Mehefin 2007
Keely Jones	Mai 2005
Steve Moats	Tachwedd 2005
Dawn Pinder	Tachwedd 2005, Mawrth 2007
Chris Rees	Mai 2005, Tachwedd 2005, Mawrth 2007
Nicky Thompson	Mai 2005

### Cyngor Sir Gaerfyrddin

Phil Edwards	Tachwedd 2005, Mawrth 2007
Jackie Jeffrey	Hydref 2005
Bleddyn Price	Tachwedd 2005, Mawrth 2007
Lisa Pudner	Ionawr 2006
Fiona Pugh	Tachwedd 2005
Russell Sparks	Awst 2006

### Cyngor Sir Ceredigion

Martine Brandford	Tachwedd 2005, Mawrth 2007
Alun Davies	Mawrth 2007
D. Davies	Mawrth 2007
Lloyd Davies	Mai 2005
Darryl Evans	Tachwedd 2006
John Havard	Mawrth 2007
Ian Macken	Tachwedd 2006
Trevor Miles	Mai 2005
Karen Rees Roberts	Ionawr 2006
Karen Roberts	Mai 2005
Jeff Saycell	Mai 2005, Tachwedd 2005
John Whitworth	Tachwedd 2005, Tachwedd 2006

### Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Chris Bowler	Tachwedd 2005
Alun Evans	Tachwedd 2005, Mawrth 2007
Paul Frost	Rhagfyr 2006
John Hardy	Rhagfyr 2006
Ian Martin	Ionawr 2006
Nia Williams	Hydref 2005, Rhagfyr 2006
Paul Young	Tachwedd 2005

## Cyngor Sir Ddinbych

Haydn Gary Jones	Tachwedd 2005, Mawrth 2007
Paul Harrison	Rhagfyr 2006
Tony Hughes	Rhagfyr 2006
Lucy Jones	Hydref 2005, Tachwedd 2005, Rhagfyr 2006
Stephen Owen	Tachwedd 2006, Mawrth 2007
Adrian Roberts	Tachwedd 2005, Mawrth 2007

## Ffederasiwn Chwaraeon Anabledd Cymru (FfChAC)

Jon Morgan	Tachwedd 2004
Gerwyn Owen	Tachwedd 2004, Tachwedd 2005

## Cyngor Sir y Fflint

Sue Armstrong	Tachwedd 2005
Joanne Edwards	Ionawr 2006
Mike Hornby	Rhagfyr 2006
Jeff Shields	Tachwedd 2005, Tachwedd 2006, Mawrth 2007
Christopher Travers	Tachwedd 2005
Nik Turnbull	Tachwedd 2006

## Cyngor Sir Gwynedd

Brian Evans	Mai 2005, Hydref 2005, Rhagfyr 2006
Carys Ferris	Mawrth 2007
Sion Gwyn	Rhagfyr 2006
Alan Hughes	Mai 2005, Rhagfyr 2006
Bryn Hughes	Tachwedd 2005, Mawrth 2007
Marianne Jackson	Mai 2005
Marcus Poltis	Ionawr 2006
Michael Roberts	Tachwedd 2005, Mawrth 2007
Steven Smith	Tachwedd 2005, Mawrth 2007
Mark Williams	Mai 2005, Tachwedd 2005, Mawrth 2007
Teresa Williams	Tachwedd 2005

## Cyngor Sir Ynys Môn

Dave Barker	Rhagfyr 2006
Mike Dilworth	Tachwedd 2006, Mawrth 2007
Owain Hughes	Rhagfyr 2006
David Parry	Tachwedd 2005, Mawrth 2007
Aled Roberts	Tachwedd 2006
Joyce Stalman	Hydref 2005
Jim Stuart	Mawrth 2007
Karen Williams	Ionawr 2006

## Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful

Mark Crimmings	Tachwedd 2005, Tachwedd 2006, Mawrth 2007
Steve Davies	Tachwedd 2006
Christopher Felton	Hydref 2005
Huw Jackson	Hydref 2005
John Sellwood	Tachwedd 2006

## Cyngor Sir Fynwy

Nick Butler	Tachwedd 2005
Richard Drinkwater	Tachwedd 2006
Claire Lampan	Awst 2006
Paul Mansell	Tachwedd 2005, Mawrth 2007
Ian Saunders	Mawrth 2007
Victoria Smith	Ionawr 2006

## Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot

Darren Evans	Mawrth 2007
Andrew Thomas	Tachwedd 2006
Paul Walker	Tachwedd 2005, Mawrth 2007
Chris Weller	Hydref 2005

## Cyngor Dinas Casnewydd

Steve Bickerton	Tachwedd 2006
Kelly Gaffney	Hydref 2005, Tachwedd 2006
Ffion Lloyd	Tachwedd 2006
Steve McGrath	Ionawr 2006
Neil Sergeant	Mawrth 2007
Iain Varah	Tachwedd 2004
Carl Williams	Tachwedd 2005, Mawrth 2007

## Cyngor Sir Benfro

Darren Bowen	Tachwedd 2005, Mawrth 2007
Julie Evans	Mawrth 2007
Sian Fair	Mawrth 2007
Lois Hilling	Ionawr 2006
Rhian McFarlane	Tachwedd 2005
Gary Nicholas	Tachwedd 2006
Chris Payne	Tachwedd 2006
Jenny Price	Tachwedd 2005, Mawrth 2007
Darryl Sable	Tachwedd 2005, Mawrth 2007
Rob Thomas	Tachwedd 2005, Mawrth 2007
James Walters	Tachwedd 2005, Mawrth 2007

## Cyngor Sir Powys

Chris Bennett	Tachwedd 2005
Stuart Bufton	Mawrth 2007
Rob Corson	Tachwedd 2005, Mawrth 2007
Helen Cox	Tachwedd 2005
Theresa Crowther	Mawrth 2007
Tim Davies	Mawrth 2007
Paul Griffiths	Mai 2005, Tachwedd 2006
Adam Harries	Tachwedd 2005, Mawrth 2007
Michael Haynes	Mai 2005, Tachwedd 2005
Martin Hurst	Tachwedd 2005, Mawrth 2007
Emma Lewis	Mawrth 2007
Ian Macken	Tachwedd 2005
Neil Matthews	Tachwedd 2006
Glen Nixon	Tachwedd 2005, Mawrth 2007
Gwyn Owen	Tachwedd 2005
Judith Phillips	Mawrth 2007
Kristian Phillips	Hydref 2005

Rebecca Sutton Tachwedd 2005  
Beverly Tucker Ionawr 2006  
Graham Williams Mai 2005

### **Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf**

James Dobbs Tachwedd 2005, Mawrth 2007  
Michelle Gibbs Ionawr 2006  
Mel Hinksman Tachwedd 2005, Mawrth 2007  
Andrew Kirby Tachwedd 2005  
Sarah Kochalski Tachwedd 2006  
Andrew Morris Tachwedd 2005, Mawrth 2007  
Craig Napper Hydref 2005, Tachwedd 2006  
T. Williams Tachwedd 2005, Mawrth 2007

### **Cyngor Chwaraeon Cymru**

Sara Butlin Tachwedd 2004

### **Cyngor Dinas a Bwrdeistref Abertawe**

Dave Aldridge Tachwedd 2005  
John Cheval Hydref 2005  
Iwan Davies Tachwedd 2006  
Jane Draper Mawrth 2007  
Kieron Dunning Tachwedd 2005  
Liz Edmunds Tachwedd 2005, Mawrth 2007  
Dave Evans Tachwedd 2004  
Emma Evans Mawrth 2007  
Christine George Tachwedd 2006  
Hywel George Tachwedd 2005  
Kath Hayler Ionawr 2006, Awst 2006  
Clair Lewis Tachwedd 2005, Mawrth 2007  
Nik More Mawrth 2007  
Dave Osborne Tachwedd 2006

### **Cyngor Bro Morgannwg**

Dave Knevet Tachwedd 2006  
Jamie Morgans Tachwedd 2006  
Scott Murray Mawrth 2007  
Linda Ruston Awst 2006  
Sandra Scott Tachwedd 2005  
Linda Smith Tachwedd 2006, Mawrth 2007

### **Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen**

Grenville Bolter Ionawr 2006  
Sally Church Mai 2005, Tachwedd 2006  
Dave Congreve Mai 2005  
Nick Evans Mai 2005, Hydref 2005, Tachwedd 2005  
Julian Smith Tachwedd 2005, Mawrth 2007  
Kathryn Williams Mawrth 2007

### **Llywodraeth Cynulliad Cymru**

Arthur Emyr Tachwedd 2004  
Elaine Hopkins Tachwedd 2004  
Stephen Woodfine Gorffennaf 2007

### **Cymdeithas Nofio Amatur Cymru (CNAC)**

Robert James Tachwedd 2005  
Charlie Parker Tachwedd 2004, Tachwedd 2005

### **Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam**

Ken Danskin Tachwedd 2006  
Mark Drew Mai 2005, Tachwedd 2005, Mawrth 2007  
Dave Edge Hydref 2005  
Andy Harries Tachwedd 2006, Mawrth 2007  
Helen Laidler Hydref 2005, Tachwedd 2006  
Amanda Roberts Mai 2005  
Alan Watkin Mai 2005, Rhagfyr 2006  
Hywel Williams Mai 2005



## Cydlynwyr Data'r Awdurdodau Lleol

Lyndsey Adams  
Claire Beynon  
Steve Bickerton  
David Brown  
Lowri Bunn  
Amanda Challis  
Sally Church  
Teresa Ciano  
Mark Crimmings  
Ken Danskin  
Steve Davies  
Richard Drinkwater  
Bernadette Elias  
Darryl Evans  
Wayne Evans  
George Frantzeskou  
Sion Gwyn  
John Hardy

Paul Harrison  
Martin Henry  
Verity Hiscocks  
Mike Hornby  
Alan Hughes  
Owain Hughes  
David James  
Ian Jones  
Lee Jones  
Lucy Jones  
Andrew Kenyon  
Sarah Kochalski  
Angela Layton  
John Lewis  
Trevor Miles  
Craig Napper  
Gary Nicholas  
Sue O'Brien

David Osborne  
Gwyn Owen  
Dave Parry  
Karl Patterson  
Kristian Phillips  
Karen Rees Roberts  
Jeremy Rowe  
Ian Saunders  
John Sellwood  
Jeff Shields  
Linda Smith  
Gill Sweetland  
Mally Tidswall  
Andrew Walker  
Paul Walker  
Graham Williams  
Hywel Williams  
Nia Williams